
# Y NODAU DATBLYGU CYNALIADWY

## Canllaw i athrawon



OXFAM
WE WON'T LIVE WITH POVERTY

# Cynnwys

**Dechrau arni gyda'r Nodau Datblygu Cynaliadwy**
Beth yw'r Nodau Datblygu Cynaliadwy? 3
Ynglŷn â'r canllaw hwn 4

**Addysg am ac *ar gyfer* y Nodau Datblygu Cynaliadwy**
Pam y mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn berthnasol i ysgolion? 4
Buddion i ddysgwyr, athrawon, ysgolion, cymunedau a'r byd ehangach 6
Addysg dinasyddiaeth fyd-eang (TAG) a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy 8
Dull Dysgu-Meddwl-Gweithredu o ymdrin â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy 9
Ymgysylltu â'r nodau 10
Cysylltu â'r cwricwlwm 11
Cefnogi pobl ifanc i berchnogi, meddu ar reolaeth a meithrin empathi 12
Cydweithredu ag arweinwyr ysgolion a'r gymuned ehangach 14
Asesu cynnydd dysgwyr a dathlu llwyddiant 18

**Golwg fanwl ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy**
Fframwaith y Nodau Datblygu Cynaliadwy 18
Mesur cynnydd 20
Cryfderau a chyfyngiadau'r Nodau Datblygu Cynaliadwy 21

**Y Camau Nesaf**
Syniadau ymarferol ar gyfer ymgorffori'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ar draws y cwricwlwm 22
Blwch offer methodoleg 28
Rhagor o adnoddau a chymorth 29
Gwefannau defnyddiol eraill 30
Rhagor o wybodaeth a ffynonellau data 30
Cydnabyddiaethau 30
Cyfeiriadau 31

# DECHRAU ARNI GYDA'R NODAU DATBLYGU CYNALIADWY

## Beth yw'r Nodau Datblygu Cynaliadwy?

Pe byddech yn llunio rhestr o nodau ar gyfer gwneud y byd cyfan yn well lle, beth fyddai arni? Dileu tlodi? Mynd i'r afal â newid yn yr hinsawdd a sicrhau defnydd cynaliadwy? Cyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau? Beth fyddai eich blaenoriaethau, a pham?

Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn set o nodau a thargedau sy'n anelu at wneud y byd yn well lle. Mae pobl ymhobman yn wynebu heriau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a gwleidyddol sylweddol, a hynny ar lefel leol a byd-eang. Fodd bynnag, mae yna obaith ar gyfer y dyfodol. Mae pob un o aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig wedi ymrwymo i 17 o nodau a fydd yn sicrhau bod amgylcheddau, economïau a chymdeithasau'r byd yn sylweddol well erbyn 2030, os cânt eu cyflawni.

> 'Gall ein cenhedlaeth ni fod y gyntaf i ddileu tlodi – a'r genhedlaeth olaf i fynd i'r afal â newid yn yr hinsawdd cyn ei bod yn rhy hwyr.'
>
> Cyn-ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Ban Ki-moon




Mae gan y Nodau Datblygu Cynaliadwy, a elwir hefyd yn Nodau Byd-eang, nodau uchelgeisiol, gan gynnwys: dileu tlodi a newyn, cyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiau, gwella ansawdd addysg ar gyfer pob plentyn, a chymryd camau gweithredu i amddiffyn yr hinsawdd a'r amgylchedd. Mae'r nodau hyn yn berthnasol i bawb, boed yn hen neu'n ifanc, a hynny yn y Deyrnas Unedig ac ym mhob un o'r 193 o wledydd a ymrwymodd iddynt yn 2015.

Un o'r prif wahaniaethau rhwng y Nodau Datblygu Cynaliadwy a'u rhagflaenwyr, Nodau Datblygu'r Mileniwm, yw eu bod yn canolbwyntio ar faterion domestig, yn ogystal â rhyngwladol, ym mhob gwlad. Yn y pen draw, cyfrifoldeb y llywodraethau yw sicrhau bod eu gwledydd yn symud tuag at y targedau y cyfeirir atynt yn y nodau. Fodd bynnag, gall pob un ohonom chwarae rhan bwysig yn y broses o'u cyflawni, fel dinasyddion unigol ac mewn partneriaeth ag eraill, a hynny trwy fod yn fwy ymwybodol o'r materion a gweithredu ar gyfer newid.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler *Golwg fanwl ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy* (tt.18–21).

## Ynglŷn â'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn cefnogi athrawon ac addysgwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc i ddyfnhau eu dealltwriaeth o addysg *am* ac *ar gyfer y* Nodau Datblygu Cynaliadwy, ac i weld sut y gall dulliau a methodolegau addysgu dinasyddiaeth fyd-eang fod yn sail i arfer da.

Mae'r canllaw hefyd yn archwilio buddion a heriau defnyddio fframwaith y Nodau Datblygu Cynaliadwy gyda dysgwyr mewn ysgolion. Rydym yn cydnabod bod addysgwyr yn debygol o fod mewn mannau gwahanol o ran eu hymgysylltiad â'r Nodau a TAG, felly er y bwriedir i'r canllaw hwn fod yn gyflwyniad, mae hefyd yn cyfeirio at ffyrdd y gall ymarferwyr mwy profiadol ddatblygu eu ffordd o feddwl a'u dealltwriaeth ymhellach.

Yn ddelfrydol, byddai ysgolion yn defnyddio dull ysgol gyfan i ymdrin â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, gan ymgorffori eu themâu ar draws y cwricwlwm a bywyd yr ysgol, grymuso pobl ifanc i weithredu arnynt, a chefnogi ymgysylltu ehangach â'r gymuned. Fodd bynnag, mae'r canllaw hwn yn cydnabod nad yw hyn bob amser yn ddichonadwy, ac mae'n anelu at gefnogi dysgu trwy feddwl am y Nodau, a gweithredu arnynt, a hynny mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn yr ysgol. Darperir cyngor ymarferol, syniadau ar gyfer gweithgareddau, astudiaethau achos ac adnoddau a dolenni defnyddiol i ysbrydoli a chefnogi addysgwyr gydag amrywiaeth gyfoethog o ffyrdd y gall dysgwyr ymgysylltu â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae'r canllaw hefyd yn sbardun defnyddiol ar gyfer datblygiad proffesiynol, gan fod yn ddolen i flaenoriaethau addysgol, er enghraifft gwerthoedd, datblygu'r cwricwlwm a gweithio gyda'r gymuned leol.

Cred Oxfam fod gweithio gyda materion lleol a byd-eang, tebyg i'r rheiny a gwmpasir gan y Nodau Datblygu Cynaliadwy, nid yn unig yn hanfodol ar gyfer creu byd tecach a mwy cynaliadwy, ond ei fod hefyd yn fuddiol ac yn ysgogol i bobl ifanc, eu hathrawon a'u cymunedau.

# ADDYSG AM AC AR GYFER Y NODAU DATBLYGU CYNALIADWY

## Pam y mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn berthnasol i ysgolion?

Mae fframwaith y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn fan cychwyn defnyddiol a hygyrch ar gyfer datblygu dull TAG a sefydlu ethos mwy byd-eang mewn ysgol neu sefydliad. Mae'r Nodau yn offeryn defnyddiol ar gyfer gwella cwricwla sy'n bodoli eisoes ac ennyn diddordeb y gymuned gyfan (gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr), yn ogystal ag ar gyfer cydweithredu â grwpiau a sefydliadau eraill i ystyried y berthynas rhwng y lleol a'r byd-eang.




Mae'r 17 o nodau yn annog pobl ifanc i ddysgu a meddwl yn feirniadol am faterion yn y byd go iawn, ac i weithredu mewn ymateb i'w dysgu.

Mae'r Nodau yn ennyn diddordeb y dysgwyr mewn materion cenedlaethol a byd-eang o bwys, sydd yn aml yn croesi ffiniau gwledydd ac yn effeithio ar bob un ohonom. Mae pobl ifanc yn tyfu i fyny mewn byd sy'n llawn gwybodaeth, barn, ffeithiau 'amgen' a newyddion 'ffug'. Felly, mae'n hanfodol bod gan ddysgwyr fynediad at addysg, gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth a newyddion 'go iawn', gan eu galluogi i ymgysylltu â materion byd-eang, eu hystyried a'u deall.

Mae'n hanfodol bod gan ddysgwyr fynediad at addysg, gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth a newyddion 'go iawn', gan eu galluogi i ymgysylltu â materion byd-eang, eu hystyried a'u deall.

Gall fframwaith y Nodau Datblygu Cynaliadwy gefnogi agwedd fwy beirniadol a chysylltiedig at ddysgu. Mae'n ddefnyddiol gwahaniaethu rhwng addysg am y Nodau Datblygu Cynaliadwy ac addysg *ar gyfer* y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Gellir cysylltu topigau a themâu'r Nodau â holl feysydd pwnc y cwricwlwm (addysg *am*). Mae yna hefyd gyfleoedd i symud oddi wrth ddysgu a meddwl at weithredu ar gyfer datblygu cynaliadwy a lles, boed hynny yn yr ysgol, yn y gymuned leol, neu ar lefel fyd-eang (addysg *ar gyfer*).

Mae deall yr ymddygiadau personol a'r systemau cymdeithasol y mae'n ofynnol eu newid er mwyn bodloni targedau'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, er enghraifft haneru gwastraff bwyd byd-eang (Nod 12), yn ffordd ddiddorol dros ben o gyflwyno gwerthoedd, moeseg a hawliau dynol i'r ystafell ddosbarth. Wrth archwilio agweddau ar addysg ar gyfer y Nodau, mae'n ddefnyddiol ystyried y gwahaniaeth rhwng camau personol a chamau mewn perthynas â'r gymdeithas ehangach, er enghraifft trwy ddylanwadu ar gyfreithiau, arferion busnes neu wleidyddiaeth. Er enghraifft, mae lleihau'r defnydd o ynni yn rhannol o fewn ein gallu personol fel unigolion (er enghraifft, trwy ddiffodd goleuadau), ond yn rhannol o fewn pŵer deddfwriaeth (er enghraifft, os gorfodir cwmnïau ynni i leihau eu defnydd o danwyddau ffosil). Mae llawer o fusnesau'n gweithredu'n wirfoddol ar gyfer y Nodau Datblygu Cynaliadwy; fodd bynnag, gellid cyflawni rhagor trwy sicrhau newidiadau i ddeddfwriaeth. Mewn rhai gwledydd, mae'n rhaid i fusnesau ystyried buddion eu gweithwyr a rhanddeiliaid eraill. Er enghraifft, mae cyfreithiau cydbenderfynu yn yr Almaen yn rhoi hawl i weithwyr gymryd rhan yn y gwaith o reoli'r cwmnïau y maent yn gweithio iddynt.

Mae Nod Datblygu Cynaliadwy 4, Targed 7, yn cydnabod yn benodol yr angen am addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang:

'Erbyn 2030, sicrhau bod pob dysgwr yn caffael yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, gan gynnwys, ymhlith eraill, trwy addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a ffyrdd cynaliadwy o fyw, hawliau dynol, cydraddoldeb rhwng y rhywiau, hyrwyddo diwylliant o heddwch a dim trais, dinasyddiaeth fyd-eang, a gwerthfawrogiad o amrywiaeth ddiwylliannol ac o gyfraniad diwylliant i ddatblygu cynaliadwy.'

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn nodi bod gan bob plentyn yr hawl i gyfranogi, a'r hawl i fynegi ei farn, i gael ei glywed ac i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arno.[1] Mae tua 42% o boblogaeth y byd o dan 25 oed, felly nid yw'n syndod bod yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DFID) wedi pwysleisio pwysigrwydd rhoi pobl ifanc 'wrth galon datblygu' yn y blynyddoedd diwethaf.[2] Mae cymhwysedd byd-eang 'nawr hefyd yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).[3]

Gall addysg *am* ac *ar gyfer* y Nodau Datblygu Cynaliadwy gefnogi pobl ifanc i sicrhau newid yn y byd, a hynny 'nawr ac yn y dyfodol. Mae'r streiciau hinsawdd a gynhelir gan ysgolion ledled y byd yn enghraifft o bobl ifanc yn dysgu am her ddifrifol newid yn yr hinsawdd, ac yn penderfynu gweithredu. Wedi dweud hynny, rhaid cael cydbwysedd gofalus rhwng pwysleisio'r angen i gymryd camau gweithredu ac egluro pwy sy'n gyfrifol am wneud y newidiadau. Mae'n bwysig peidio â rhoi gormod o faich ar ysgwyddau pobl ifanc – ni chaiff yr heriau byd-eang hyn eu datrys oni bai fod pob cenhedlaeth yn cydweithio 'nawr, ac mae gan fusnesau mawr a llywodraethau rôl hollbwysig i'w chwarae.

## Buddion i ddysgwyr, athrawon, ysgolion, cymunedau a'r byd ehangach

The SDG framework is an engaging and powerful way of linking to a range of complex global issues and questions that learners might wish to address. Here are some reasons for inspiring young people through the goals:

### Buddion i ddysgwyr

- Mae'n cefnogi'r broses o gaffael sgiliau a chymwyseddau craidd, yn enwedig y rheiny sy'n gysylltiedig â gwneud gwaith ymchwil (ansoddol a meintiol); datblygu, cyflwyno ac ymateb i ddadleuon gwybodus; a datblygu rheolaeth.
- Mae natur ryngddisgyblaethol y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn helpu dysgwyr i weld y cysylltiadau rhwng pynciau a sgiliau gwahanol, a all, yn eu tro, eu cefnogi i ffynnu mewn marchnad waith sy'n newid yn gyflym.
- Mae'n cymell ac yn gwella dysgu ar draws y cwricwlwm oherwydd bod y themâu yn gofyn am ymgysylltiad arloesol a chreadigol, a'u bod yn berthnasol i'r byd go iawn.
- Mae'n gwneud dysgwyr yn gyfarwydd â'r systemau a ddefnyddir mewn llywodraethu cenedlaethol a byd-eang, a'r cysyniad o gyfraith ryngwladol (ynghyd â chyfleoedd a chyfyngiadau hynny).
- Mae'n grymuso dysgwyr i wneud synnwyr o'r cymunedau amrywiol y maent yn byw ynddynt, yn lleol ac yn y byd; ac i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a mynegi barn arnynt.
- Mae'n dyfnhau dealltwriaeth o wyddor gymdeithasol, a chysyniadau a phrosesau gwyddonol a mathemategol, a hynny trwy eu cymhwyso i gyd-destunau a data bywyd go iawn.
- Mae'n meithrin sgiliau meddwl yn feirniadol, ac yn grymuso dysgwyr i fod yn hyderus wrth herio honiadau anghywir neu ffals a wneir gan eraill – er enghraifft, yn y cyfryngau.
- Gall gefnogi dysgwyr i deimlo ei bod yn bosibl cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â heriau byd-eang, a bod y camau hynny yn cael eu cymryd, a bod gan bawb ran i'w chwarae wrth sicrhau cynnydd.



Mae fframwaith y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn ffordd ddiddorol a phwerus o greu cysylltiadau ag amrywiaeth o faterion a chwestiynau byd-eang cymhleth y gallai dysgwyr ddymuno mynd i'r afael â nhw.

### Buddion i athrawon ac ysgolion

- Mae'n darparu llinyn aur unoli ar gyfer ysgolion sydd am osod gwerthoedd, hawliau dynol a chymwyseddau byd-eang wrth galon y broses ddysgu. Mae natur eang, gyd-ddibynnol y Nodau Datblygu Cynaliadwy, sy'n cefnogi ei gilydd, yn golygu eu bod yn offeryn rhagorol ar gyfer archwilio a datblygu cwricwla ysgol gyfan, cynlluniau datblygu ysgolion a datganiadau cenhadaeth.
- Mae'n hyrwyddo agwedd gydol oes at ddysgu a'r angen i bawb gydweithio. Gall athrawon a dysgwyr ddarganfod rhagor am y Nodau Datblygu Cynaliadwy mewn partneriaeth.
- Mae'n cynnig offeryn defnyddiol ar gyfer cefnogi'r cyfnod pontio rhwng cynradd ac uwchradd neu rhwng camau dysgu – er enghraifft, trwy brosiectau dysgu byd-eang, cydweithredol.
- Gall hyrwyddo gwerth amrywiaeth yn yr ysgol a thu hwnt.
- Mae'n cefnogi ysgolion i gyflawni blaenoriaethau'r cwricwlwm yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban (gweler t.11 am ragor o fanylion).
- Mae'n darparu cyfleoedd i archwilio materion dadleuol, er enghraifft mudo neu densiwn crefyddol, a hynny mewn ffyrdd priodol (gweler canllawiau Oxfam, *Teaching Controversial Issues*, am ragor o arweiniad a gweithgareddau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth).[4]
- Mae'n helpu ysgolion i gyflawni prosiectau, rhaglenni a gwobrau sy'n bodoli eisoes, er enghraifft Cysylltu Dosbarthiadau trwy Ddysgu Byd-eang, Ysgolion Eco, Ysgolion Masnach Deg, Gwobr Ysgolion Cynaliadwy y *Times Educational Supplement*, Llysgenhadon Gwyrdd y Grnofa Fyd-eang ar gyfer Natur (WWF), y Wobr Ysgolion Rhyngwladol, a Gwobr UNICEF ar gyfer Ysgolion sy'n Parchu Hawliau; mae gan rai o'r rhain gysylltiadau uniongyrchol â themâu a thargedau'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Gweler *Rhagor o adnoddau a chymorth a Gwefannau defnyddiol eraill* (tt.29-30).
- Mae'n cefnogi cysylltiadau ag athrawon o bob cwr o'r byd trwy brosiectau, rhaglenni a mudiadau sy'n canolbwyntio ar Nodau Datblygu Cynaliadwy, er enghraifft y mudiad #TeachSDGs, y World's Largest Lesson, neu Cysylltu Dosbarthiadau trwy Ddysgu Byd-eang. Gweler *Rhagor o adnoddau a chymorth a Gwefannau defnyddiol eraill* (tt.29-30).

'Efallai na fyddwch fyth yn gwybod pa ganlyniadau a fydd yn deillio o'ch gweithredoedd, ond os na wnewch chi unrhyw beth, ni fydd yna unrhyw ganlyniadau.'
Mohandas Gandhi

### Buddion i gymunedau a'r byd ehangach

- Fframwaith rhagorol ar gyfer mynd i'r afael â materion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n ddadleuol ac yn gymhleth, yn enwedig y rheiny sy'n achosi tensiwn byd-eang.
- Gall rhannu'r dysgu am y Nodau Datblygu Cynaliadwy ennyn diddordeb a chryfhau perthnasoedd â rhieni, cymunedau a busnesau, a rhwng y grwpiau gwahanol hyn.
- Gall gysylltu â phrosiectau i ymgysylltu â chymunedau neu fusnesau lleol, er enghraifft mentrau dim gwastraff, grwpiau cefnogi ffoaduriaid neu gynlluniau gweithredu ar fioamrywiaeth, yn ogystal â darparu cyd-destun ar eu cyfer.
- Mae'n meithrin ymwybyddiaeth o weithgareddau lleol, cenedlaethol neu fyd-eang, er enghraifft prosiectau parhaus sy'n bodoli i ymgysylltu â chymunedau, ac yn annog cefnogaeth iddynt, a hynny er mwyn sicrhau cynnydd tuag at dargedau'r Nodau.





## Addysg dinasyddiaeth fyd-eang (TAG) a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Rydym yn argymell dull TAG o ennyn diddordeb y dysgwyr yn y Nodau Datblygu Cynaliadwy gan fod hynny'n cynnwys elfennau megis meddwl yn feirniadol, dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy a pharch at hawliau dynol, fel yr amlinellir yn Nod Datblygu Cynaliadwy 4, Targed 7.

Mae'r Nodau yn cysylltu'n dda â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd, a'r agweddau a amlinellir mewn cyrsiau TAG. Mae TAG yn galluogi dysgwyr i gydnabod cymhlethdod materion byd-eang, ac i gysylltu'r lleol â'r byd-eang. Mae'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu a dysgu cyfranogol, gan gynnwys trafodaeth a dadl, chwarae rôl, ymarferion sgorio, a chymunedau ymholi,5 a gall pob un o'r rhain gefnogi addysgu a dysgu *am* ac ar *gyfer y* Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Er bod y dull TAG yn cynnig gweithgareddau a dulliau y gellir eu defnyddio i gefnogi ymgysylltiad â'r Nodau mewn sesiynau untro, nid yw'n faes pwnc ychwanegol, ond yn hytrach yn ddull trosfwaol o ymdrin ag arfer yn yr ystafell ddosbarth, ac yn un y dylid ei ymgorffori orau ar draws y cwricwlwm (gweler canllaw Oxfam ar Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang).[6]

### YR ELFENNAU ALLWEDDOL AR GYFER DATBLYGU DINASYDDIAETH FYD-EANG WEITHGAR A CHYFRIFOL

| Gwybodaeth a dealltwriaeth | Sgiliau | Gwerthoedd ac agweddau |
|---|---|---|
| • Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch<br>• Hunaniaeth ac amrywiaeth<br>• Globaleiddio a rhyngddibyniaeth<br>• Datblygu cynaliadwy<br>• Heddwch a gwrthdaro<br>• Hawliau dynol<br>• Pŵer a llywodraethu | • Meddwl yn feirniadol ac yn greadigol<br>• Empathi<br>• Hunanymwybyddiaeth a myfyrdod<br>• Cyfathrebu<br>• Cydweithredu a datrys gwrthdaro<br>• Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd<br>• Camau gweithredu gwybodus a myfyriol | • Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch<br>• Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch<br>• Parch at bobl a hawliau dynol<br>• Gwerthfawrogi amrywiaeth<br>• Pryder am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy<br>• Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant<br>• Y gred y gall pobl sicrhau newid |

## Dull Dysgu-Meddwl-Gweithredu o ymdrin â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy


Mae dull Dysgu-Meddwl-Gweithredu yn ategu themâu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy oherwydd ei gydnabyddiaeth benodol o'r berthynas rhwng dealltwriaeth, myfyrio a gweithredu (gweler Ffigur 1). Ochr yn ochr â meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth drwyadl o faterion byd-eang, mae dull o'r fath yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i feithrin sgiliau newydd, i feddwl yn feirniadol, ac i weithredu a myfyrio mewn modd effeithiol fel asiantau newid. Mae hefyd yn galluogi dysgwyr i archwilio, datblygu a mynegi eu gwerthoedd a'u barn eu hunain, gan wrando gyda pharch ar safbwyntiau pobl eraill. Mae hwn yn bwynt pwysig tuag at y dysgwyr yn gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y modd y maent yn ymgysylltu â materion byd-eang.

> 'We cannot tire or give up. We owe it to the present and future generations of all species to rise up and walk!'
> Wangari Maathai

Mae themâu'r Nodau yn addas iawn ar gyfer gwaith ymchwil a myfyrio unigol ac mewn grŵp, ac maent yn annog camau gweithredu gwybodus a chyfrifol ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang. Wedi dweud hynny, gall camau gweithredu fod ar sawl ffurf, ac mae'n bwysig cofio bod y Nodau Datblygu Cynaliadwy wedi'u bwriadu i fod yn gyfrifoldeb i lywodraethau a phob lefel o gymdeithas ym mhob gwlad – nid cyfrifoldeb pobl ifanc yn unig. Yn achos pobl ifanc, gallai'r elfen 'weithredu' weithiau olygu penderfynu dysgu rhagor neu ailfframio cwestiwn allweddol ar gyfer ymchwil pellach.

I sicrhau deilliannau addysgol cryf ac ymgysylltiad ystyrlon â'r Nodau Datblyg Cynaliadwy, mae'n bwysig bod addysgwyr yn chwilio am weithgareddau sy'n cefnogi'r broses o feithrin sgiliau tebyg i feddwl yn feirniadol ac yn greadigol, yn hytrach na gweithgareddau symbolaidd.[7] Mae hefyd angen ystyried sut y mae pobl ifanc yn dysgu am y materion hyn: beth sy'n effeithio ar eu barn a'u hymddygiadau, a sut y gellir cyflawni dull mwy beirniadol a chysylltiedig o ddysgu.[8] Mae TAG ar y rhyngwyneb rhwng dysgu, meddwl a gweithredu, gyda gwerthoedd wrth galon hyn. Cydnabyddir bod meithrin gwerthoedd cynhenid neu dosturiol yn rhan bwysig o gefnogi dysgwyr i ddatrys problemau cymhleth sy'n 'fwy-na'r-hunan', tebyg i'r rhai a amlinellir yn y Nodau Datblygu Cynaliadwy.[9] Mae Ffigur 1 yn dangos sut y gall dysgu a meddwl am fater byd-eang ysgogi camau gweithredu, tra bod cymryd camau gweithredu yn aml yn ysgogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am fater a'u dealltwriaeth ohono, ac i feddwl yn feirniadol am y mater a'u dewis o gamau gweithredu, fel ei gilydd.

### FFIGUR 1: Y FFRAMWAITH DYSGU-MEDDWL-GWEITHREDU



## Ymgysylltu â'r nodau

Mae defnyddio dull ysgol gyfan i ymdrin â TAG a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn ffordd effeithiol o gefnogi llawer o flaenoriaethau cyffredin ysgolion mewn modd cynaliadwy, er enghraifft meithrin gwerthoedd craidd a llais y dysgwr. Gall gweithgaredd ar thema Nod Datblygu Cynaliadwy, sy'n para diwrnod, wythnos neu dymor cyfan, fod yn fan cychwyn da ar gyfer ysgogi ac uno cymuned yr ysgol (rhieni, llywodraethwyr a grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol) o blaid cenhadaeth gyffredin. Yn y cyfamser, gallai parau neu glystyrau o ysgolion sy'n fwy cyfarwydd â'r Nodau gydweithredu i sicrhau newid sy'n gysylltiedig â nodau penodol yn eu lleoliadau lleol.

Mae'r Nodau'n cynnwys amrywiaeth o dargedau uchelgeisiol a brys (cyfanswm o 169). Mae'r adroddiad blynyddol ar ddatblygiad cynaliadwy yn amlygu graddfa'r dasg y mae angen i ddynoliaeth ymgymryd â hi er mwyn cyrraedd y targedau hyn.[10] Weithiau, gall y data y tu ôl i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, yn union fel straeon yn y cyfryngau, achosi gofid ac ymdeimlad o ddiffyg pŵer ymhlith pobl ifanc, gan beri iddynt feddwl tybed beth y gellir ei wneud yn wyneb trychineb amgylcheddol a dynol.

Felly, mae'n bwysig ymgysylltu â'r Nodau mewn ffyrdd sy'n gwrthsefyll natur negyddol rhai o'r straeon, ystadegau a delweddau y mae pobl ifanc yn eu gweld yn y newyddion, gan gydnabod, ar yr un pryd, yr heriau y mae ein planed a chymdeithas yn eu hwynebu. Mae yna lawer o straeon cadarnhaol am gynnydd a newid nad ydynt yn cyrraedd y penawdau, a gall addysgwyr ddefnyddio'r rhain i herio camdybiaethau. Er enghraifft, yn 1800, roedd 44% o'r holl blant o amgylch y byd wedi marw cyn cyrraedd eu pen-blwydd yn bump oed ond, yn 2016, roedd y ffigur hwnnw'n nes at 4%. Yn 1900, dim ond un wlad (allan o 195) a oedd yn rhoi hawliau pleidleisio cyfartal i fenywod ag i ddynion, ond yn 2017 roedd hyn wedi cynyddu i 193.[11] Yn 2017, roedd allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y Deyrnas Unedig wedi gostwng 43% o gymharu â'r lefelau yn 1990.[12] Mae adnoddau tebyg i Gapminder[13] yn dangos nad yw'r byd bob amser cynddrwg ag y mae pobl yn ei feddwl, a chyda mwy o empathi a rhagor o weithredu, mae yna obaith.



Mae'n bwysig ymgysylltu â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy mewn ffyrdd sy'n gwrthsefyll natur negyddol rhai o'r straeon, ystadegau a delweddau y mae pobl ifanc yn eu gweld yn y newyddion.

## Cysylltu â'r cwricwlwm

Mae yna sawl ffordd y mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn cysylltu â chyd-destun ysgolion a'r cwricwlwm yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. I raddau amrywiol, mae pob cwricwlwm cenedlaethol yn disgwyl i faterion lleol a byd-eang gael sylw, ac i addysgwyr ddarparu ystod eang o gyfleoedd i gyflawni hynny. Cydnabyddir yn eang bwysigrwydd datblygu gwybodaeth a sgiliau sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd yn y byd go iawn, a hynny er mwyn paratoi pobl ifanc ar gyfer cymhlethdodau bywyd yn yr 21ain ganrif, a gall y Nodau gefnogi'r broses hon.

## CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM

| | |
|---|---|
| **Lloegr** | Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, fel TAG, yn rhoi cyfle i ysgolion ddarparu profiadau dysgu sy'n real, yn berthnasol ac yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Mae yna gyfleoedd ar draws y cwricwlwm ac ym mhob cyfnod allweddol. Gall y Nodau hefyd gefnogi blaenoriaethau ysgol gyfan megis datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol a gwerthoedd Prydeinig, yn ogystal â chysylltu â phynciau penodol megis Dinasyddiaeth, Daearyddiaeth, gwyddoniaeth ac Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd (ABGI).<br>Mae yna hefyd gysylltiadau trwy fframwaith arolygu addysg OFSTED (i'w roi ar waith ym mis Medi 2019), lle caiff darparwyr eu gwerthuso i'r graddau y mae gan y dysgwyr y cyfarpar 'i fod yn ddinasyddion cyfrifol, gweithredol, sy'n llawn parch ac yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at gymdeithas'. |
| **Gogledd Iwerddon** | Mae Cwricwlwm Gogledd Iwerddon yn anelu at rymuso pobl ifanc fel cyfranwyr i gymdeithas a'r amgylchedd. Mae'n cynnig hyblygrwydd a chwmpas sylweddol i addysgu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy trwy ddull dysgu byd-eang.<br>Mae themâu megis 'cyd-ddibyniaeth', 'hawliau', 'cyfiawnder cymdeithasol' a 'chyfranogiad gweithredol' yn ofynnol mewn rhai meysydd dysgu, tra bo elfennau allweddol trosfwaol megis dinasyddiaeth, datblygu cynaliadwy ac ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn llywio ac yn arwain y gofynion ar gyfer yr holl bynciau a meysydd dysgu. Mae'r cwricwlwm hefyd yn hyrwyddo dull dysgu cysylltiedig a chynllunio thematig, sy'n cynnig cwmpas gwych i addysgu'r Nodau trwy bynciau sy'n bodoli eisoes, gan feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd, sgiliau meddwl a galluedd personol ar yr un pryd. |
| **Yr Alban** | Mae'r Cwricwlwm Rhagoriaeth yn cefnogi pedwar galluedd, gan gynnwys 'Dinasyddion cyfrifol' a 'Chyfranwyr effeithiol'. Mae Dinasyddiaeth Fyd-eang yn thema drawsbynciol yn y Cwricwlwm Rhagoriaeth – mae nifer o'r Profiadau a Deilliannau yn cyfeirio at themâu sy'n ymwneud â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy – a chaiff gwaith rhyngddisgyblaethol ei annog. Mae'r Nodau yn darparu cyd-destunau cyfoethog yn y byd go iawn ar gyfer y meysydd blaenoriaeth Llythrennedd, Rhifedd ac Iechyd a Lles.<br>Mae Llywodraeth yr Alban yn rhoi hawl i bob disgybl Ddysgu ar gyfer Cynaliadwyedd, sy'n gyson â'r Nodau, ac sy'n cwmpasu TAG, addysg datblygu cynaliadwy a dysgu yn yr awyr agored. Mae Dysgu ar gyfer Cynaliadwyedd wedi'i ymgorffori ar draws Safonau Proffesiynol Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban, yn un o'r tair thema graidd. Mae *Getting it Right for Every Child* (GIRFEC) yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddarpariaethau addysg fod yn seiliedig ar hawliau. |
| **Cymru** | Un o bedwar diben y Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022, ar gyfer disgyblion 3-16 oed, yw cefnogi pobl ifanc i fod yn 'ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd'. Caiff ysgolion eu herio i ddarparu cyfleoedd i athrawon a dysgwyr ystyried materion byd-eang; gwneud cysylltiad rhwng yr hyn sy'n bersonol, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang; cymryd rhan mewn profiadau diwylliannol amrywiol; gwerthuso eu gwerthoedd ac agweddau eu hunain mewn modd beirniadol; a meithrin sgiliau a fydd yn eu galluogi i herio anghyfiawnder, rhagfarn a gwahaniaethu.<br>Gellir mynd i'r afael â themâu sy'n ymwneud â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy trwy Her Dinasyddiaeth Fyd-eang Bagloriaeth Cymru a'r canllawiau ar Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF), sy'n anelu at baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd yn yr 21ain ganrif. |

**ASTUDIAETH ACHOS** MAPIO'R CWRICWLWM I'R NODAU DATBLYGU CYNALIADWY

A hithau'n Ysgol Sy'n parchu Hawliau UNICEF[14] (Lefel 2), mae Ysgol Admiral Lord Nelson (ALNS) yn Portsmouth wedi ymgorffori hawliau dynol yn ei chynllun gwella ysgol a'i chwricwlwm, ac wedi sicrhau eu bod yn rhan annatod o'i hethos a'i gwerthoedd. Oddi ar 2015, mae'r ysgol wedi ehangu a dyfnhau ei dysgu byd-eang trwy ymgysylltu â'r Nodau. Dechreuodd hyn trwy ganolbwyntio ar y nodau am wythnos gyfan, a hynny trwy gyfrwng gwasanaethau a gwersi ar draws y cwricwlwm cyfan.

Darganfu ALNS fod y Nodau Datblygu Cynaliadwy a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cyd-fynd yn arbennig o dda ac, o ganlyniad, mae gweithio ar un yn aml wedi golygu gweithio ar y llall. Mae'r ysgol wedi mapio'r CCUHP ar draws pob maes pwnc yn y cwricwlwm ac, mewn rhai achosion, wedi mapio'r Nodau hefyd. Mae'r ysgol 'nawr yn canolbwyntio ar nod gwahanol bob pythefnos, sy'n llywio amser tiwtor a gwasanaethau. Er enghraifft, mae'r cwricwla Athroniaeth, Moeseg ac Addysg Grefyddol yn mapio thema pob pwnc i'r CCUHP a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Wrth galon y dull addysgegol o ymdrin â dysgu byd-eang yn ALNS y mae'r syniad o gyfrifoldeb. Mae dysgu am y materion byd-eang sy'n gysylltiedig â'r Nodau yn un peth, ond mae hefyd yn bwysig bod y dysgwyr yn meddu ar y gallu, ac yn cael cyfleoedd, i ysgogi newid, fel yr amlygir yn y dyfyniad canlynol yn yr adran ar gyfrifoldeb cymdeithasol ar wefan ALNS: *'Yn ALNS credwn mewn GWEITHREDU. Nid ydym yn siarad yn unig am y pethau yr ydym yn poeni amdanynt; rydym yn ceisio gwneud rhywbeth amdano. Rydym am wneud gwahaniaeth.'*

**ASTUDIAETH ACHOS** YMGORFFORI DYSGU BYD-EANG LEDLED YR YSGOL

Mae dysgu byd-eang a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy wedi'u hymgorffori yn y cwricwlwm yn Ysgol Gynradd St Kieran ym Melfast. Mae'r athrawon wedi cael cymorth i weld sut y mae dysgu byd-eang yn ymblethu ar draws y cwricwlwm ac yn benodol berthnasol o ran Datblygiad Personol a Chyd-ddealltwriaeth (PDMU), y Byd o'n Cwmpas (WAU) ac Addysg Grefyddol. Mae dysgu byd-eang wedi cael ei ymgorffori yn y gwaith o gynllunio'r WAU, ac mae ganddo hefyd ei gynllun gweithredu dynodedig ei hun yn y Cynllun Datblygu Ysgol.

Yn ystod wythnos dysgu byd-eang, gofynnwyd i bob grŵp blwyddyn neu ddosbarth archwilio gwlad benodol ac un o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Aeth y dysgwyr ati i feddwl am y cysylltiadau rhwng eu gwlad a'r Nod Datblygu Cynaliadwy, yn ogystal â'r hyn y gallent ei wneud er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn. Er enghraifft, edrychodd P2 ar yr Arctig a Nod Datblygu Cynaliadwy 14 (Bywyd o dan y Dŵr). Aethant atii ymchwilio i orbysgota, a chysylltu hyn â llythrennedd. Roed yn wythnos wych o ddysgu, a orffennodd gyda Diwrnod Dysgu Byd-eang arbennig. Roedd y plant wrth eu bodd, a gallant 'nawr siarad yn hyderus am y Nodau.

I gael syniadau ymarferol ar ymgorffori'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ar draws y cwricwlwm, gweler tt. 22-26.

## Cefnogi pobl ifanc i berchnogi, meddu ar reolaeth a meithrin empathi

Mae llais disgyblion a dulliau cyfranogol o ymdrin â dysgu wrth galon TAG, ac yn addas ar gyfer cefnogi dysgwyr i weithredu ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Er mwyn cynnwys y dysgwyr yn llawnach yn y broses o ddysgu am y nodau, gallech benodi llysgenhadon neu hyrwyddwyr ifanc ar gyfer y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Gall y llysgenhadon hyn hefyd gefnogi rhaglenni dysgu gan gyfoedion. Mae prosiectau a phartneriaethau sy'n ymwneud â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn yr ysgol neu'r gymuned ehangach yn fwy cynhwysol, grymusol a chydweithredol pan gaiff y thema neu'r mater ei ddewis gan y bobl ifanc eu hunain.

> 'Gadewch i ni greu ein dyfodol 'nawr, a gadewch i ni sicrhau mai breuddwydion heddiw fydd realiti yfory.'
> Malala Yousafzai

Cofiwch, nid oes rhaid i'r athrawon a'r addysgwyr fod yn arbenigwyr i ganolbwyntio'n effeithiol ar y Nodau yn yr ystafell ddosbarth neu yn ystod gweithgaredd ysgol gyfan. Y rheswm dros hyn yw bod y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn addas i sefyllfa lle mae addysgwyr yn ysgwyddo rôl hwyluso ac arwain ac yn dysgu ar y cyd. Gall athrawon fel hwyluswyr gefnogi pobl ifanc i feithrin y sgiliau, y gwerthoedd a'r cymwyseddau gofynnol wrth iddynt wneud gwaith ymchwil a darganfod gwybodaeth newydd drostynt eu hunain. Mae themâu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy hefyd yn cynnig cyfleoedd diddorol ar gyfer mentora o chwith (lle mae'r addysgwyr yn fwriadol yn dysgu gan bobl ifanc trwy wrando, cwestiynu ac arsylwi), meddwl am y darlun mawr, ac edrych ar weithredoedd ac achosion lleol o safbwynt byd-eang.

Mae galluogi'r dysgwyr i ymgysylltu â'r straeon dynol sydd y tu ôl i themâu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn strategaeth addysgegol bwysig a defnyddiol – mae llawer o'r adnoddau a argymhellir ar ddiwedd y canllaw hwn yn cynnig dolenni i'r straeon y tu ôl i'r nodau. Er enghraifft, mae'r rhaglen ddogfen Survivors yn olrhain bywydau pobl yn Sierra Leone yr effeithiodd yr argyfwng Ebola arnynt (Nod 3: Iechyd da a Llesiant).[15] Mae sefydliadau megis Sefydliad Joseph Rowntree yn amlygu realiti bywydau pobl dlawd yn y Deyrnas Unedig (Nod 1: Dim Tlodi). Bydd ymagwedd dinasyddiaeth fyd-eang yn dangos sut y mae themâu'r Nodau yn effeithio ar bawb, ac yn annog y dysgwyr i archwilio safbwyntiau amgen.

Wrth ymchwilio i themâu'r Nodau, mae'n bwysig myfyrio ar bwy sy'n diffinio'r topig a pha faterion o ran pŵer a allai fod ar waith. Gall hyn arwain at gwestiynau diddorol ynghylch yr heriau y mae pob un ohonom yn eu hwynebu wrth ddysgu am y Nodau a gweithredu arnynt, yn ogystal â pha newidiadau systemig neu ymddygiadol y mae angen eu gwneud er mwyn i ni gael ein grymuso. Gall hyn, yn ei dro, arwain at drafodaeth ynghylch pwysigrwydd gwytnwch wrth geisio newid pethau er gwell.

## **ASTUDIAETH ACHOS** MYND AR DAITH FYD-EANG

Mae 'Mynd ar Daith Fyd-eang'[16] yn brosiect tair blynedd sy'n cael ei ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd, ei arwain gan Ranbarth Twsgani a'i gydlynu gan Oxfam Italia, ac mae'n canolbwyntio ar baratoi pobl ifanc i gefnogi'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae'n cysylltu llywodraethau lleol â chymunedau rhanbarthol a lleol (cymunedau ysgolion a sefydliadau cymdeithas sifil) o 11 o wledydd Ewropeaidd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig (Cymru a'r Alban). Mae'r prosiect yn mynd i'r afael â thri o'r Nodau (Nod 11: Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy, Nod 13: Gweithredu dros yr hinsawdd, a Nod 16: Heddwch, cyfiawnder a sefydliadau cryf).

Yng Nghymru, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio mewn partneriaeth â Dolen Cymru Lesotho i gefnogi wyth ysgol (saith ysgol uwchradd ac un ysgol gynradd) gyda'r prosiect. Mae'r athrawon wedi cael hyfforddiant a phecyn adnoddau pwrpasol, ac mae pob ysgol wedi dethol dysgwyr i fod yn 'Gôl-geidwaid Byd-eang' (llysgenhadon y Nodau Datblygu Cynaliadwy). Rôl y llysgenhadon hyn yw meithrin ymwybyddiaeth o'r Nodau yn eu hysgol ac yna, gyda chymorth gan y cyngor, arwain gweithgareddau o'u dewis yn y gymuned yn ystod Wythnos Datblygu Cynaliadwy Ewrop. Ym mis Mehefin 2019, cymerodd pobl ifanc o ysgolion gwahanol ran mewn taith gerdded yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yng nghwmni penderfynwyr ac athrawon ar ymweliad o Lesotho, a hynny er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o'r Nodau a galw am weithredu.



**ASTUDIAETH ACHOS** EIRIOLI DROS ADDYSG 'O SAFON'

Ffactor allweddol yn yr ymagwedd at 'Ddysgu ar gyfer Cynaliadwyedd' yn Ysgol Gynradd Gatholig St Eunan's yn Swydd Dunbarton oedd darganfod cyfleoedd i ddysgwyr archwilio gwerthoedd megis codi llais dros gyfiawnder neu gydraddoldeb cymdeithasol.

Mae'r staff wedi anelu at ddyfnhau dealltwriaeth y dysgwyr ohonynt eu hunain a'r byd o'u cwmpas, ochr yn ochr ag archwilio rhai o'r rhwystrau i gydraddoldeb a wynebir gan unigolion a grwpiau penodol. Mae'r dysgwyr hefyd wedi cael eu hannog i feithrin sgiliau eirioli, ac i feddu ar reolaeth a chred yn eu gallu i wneud gwahaniaeth.

Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar Erthygl 28 o'r CCUHP, sydd hefyd yn cysylltu â Nod Datblygu Cynaliadwy 4 (Addysg o safon). Wedi dysgu am y cyfleoedd a'r buddion o gael mynediad cyffredinol i addysg, ynghyd ag anawsterau cyflawni hyn, sefydlodd y dysgwyr eu hymgyrch eu hunain: *Addysg ar gyfer Pob Plentyn Ymhobman*.

Bu iddynt sefydlu deiseb ar-lein ac ymweld ag ysgolion a phrifysgolion lleol, ac aethant i Holyrood i gwrdd â'r Aelod o Senedd yr Alban, John Finnie. Heb yr ymchwili ofalus, y gwaith o archwilio'r materion hyn a'r pwyslais ar eiriolaeth y dysgwr, efallai na fyddai effaith yr ymweliadau hyn wedi bod mor ddwfn. Roedd y dysgwyr yn asiantau pwerus dros newid ac yn rym i wrando arno.

Yn ei flog, dywedodd John Finnie: *'Daeth Cynradd 7 o St Eunan's i Senedd yr Alban am ei bod yn lle pwerus, ac maent am i'r rheiny sydd mewn pŵer weithredu. Maent yn bendant wedi fy ysbrydoli i ddyblu fy ymdrechion i atal gwledydd pwerus tebyg i'n gwlad ni rhag noddi neu gyflenwi'r rhyfeloedd sy'n sefyll rhwng plant a'r addysg y maent yn ei haeddu.'*

*'Ni fydd teimlad yn sicrhau lle mewn ysgol i blentyn. Rhaid i ni droi ein geiriau yn weithredoedd.'* Dysgwr, St Eunan's

Gweler Anfona Fy Ffrind i'r Ysgol i gael rhagor o wybodaeth, syniadau ac adnoddau i gefnogi dysgu am ac ar gyfer Nod Datblygu Cynaliadwy 4.[17]

## Collaborating with school leadership and the wider community

Wrth i chi ddatblygu eich golwg byd-eang eich hun – un sy'n sicrhau bod golygfeydd gwahanol o'r byd yn cael eu cynnwys yn eich holl addysgu a dysgu – efallai yr hoffech hefyd ystyried bod yn 'arweinydd dysgu byd-eang' yn eich ysgol, gan nodi bod arweinyddiaeth yn golygu cydweithredu ag eraill er mwyn bod yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

Gallai'r cam nesaf tuag at ennyn diddordeb dyfnach y dysgwyr yn y Nodau yn eich lleoliad gynnwys sefydlu gweithgor bach (er enghraifft, o athrawon, pobl ifanc a llywodraethwyr) i drafod sut y gallai TAG gael ei ymgorffori ledled yr ysgol. Os na fydd yr uwch-reolwyr neu aelodau eraill o'r staff yn ystyried y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn flaenoriaeth i'r ysgol, gallai fod yn werth pwysleisio'r buddion i ysgolion o ymgysylltu â nhw, er enghraifft gwella llais disgyblion, arweinyddiaeth a rheolaeth (gweler tt. 6-7).

> 'Mae'r gallu i wneud gwahaniaeth yn eich dwylo chi.'
> Nelson Mandela

Er bod y canllaw hwn yn eirioli defnyddio dull TAG yn ystod arfer pob dydd, yr hyn a allai fod o'r diddordeb mwyaf i arweinwyr ysgolion yw'r ffordd y gall fframwaith y Nodau Datblygu Cynaliadwy wella cydweithrediad â busnesau lleol neu sefydliadau cymunedol, neu bartneriaethau ag ysgolion eraill. Mae'n bosibl y bydd ysgol sydd â gwybodaeth dda am y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn gallu ei sefydlu ei hun fel arweinydd neu 'lysgennad addysgu' yn ei hardal leol. Er enghraifft, gall archfarchnad leol fod yn hyrwyddo'r arfer o ailgylchu plastigion neu leihau'r defnydd ohonynt, a gallai hyn gael ei gysylltu â phrosiect yn yr ysgol sy'n seiliedig ar Nod 12 (Arferion defnyddio a chynhyrchu cyfrifol). Gallai partneriaeth o'r fath gyfrannu at strategaeth leol, gydgysylltiedig ar gyfer gwastraff cynaliadwy.

Mae yna amryw o elusennau a grwpiau yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnig cymorth i ysgolion ac athrawon ar gyfer eu taith ddysgu ar themâu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Gallech wahodd arbenigwyr dysgu byd-eang i'ch ysgol, naill ai i hyfforddi'r athrawon neu ar gyfer gweithgareddau i ymgysylltu â'r dysgwyr. Er enghraifft, yng Nghymru a Lloegr mae Oxfam yn cynnig siaradwyr i ysgolion a chyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), yn ogystal â chymorth ar gyfer dysgwyr iddynt ddysgu a meddwl am faterion byd-eang, a gweithredu arnynt (trwy Grwpiau Ysgolion Oxfam). Gall eich Canolfan Addysg Datblygu leol hefyd fod yn cynnig rhaglenni dysgu ac opsiynau DPP (yn yr Alban, mae Oxfam yn gweithio mewn partneriaeth â'r canolfannau hyn. Mae cyfleodd DPP wedi'u hariannu hefyd ar gael trwy'r rhaglen Cysylltu Ystafelloedd Dosbarth trwy Ddysgu Byd-eang (CCGL) (2018-21). I gael rhagor o fanylion, gweler *Rhagor o adnoddau a chymorth* (t.29).

Yn olaf, mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn ddefnyddiol iawn ar gyfer cefnogi cysylltiadau rhwng ysgolion ar lefel leol, genedlaethol neu fyd-eang. Er enghraifft, mae rhai ysgolion wedi gweithio mewn partneriaeth er mwyn ennyn diddordeb eu cymunedau ehangach i feithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ac i weithredu dros Nodau Datblygu Cynaliadwy penodol, y cytunwyd arnynt ar y cyd ac y mae eu dysgwyr wedi eu hastudio gyda'i gilydd.

Mae ysgolion eraill wedi llwyddo i archwilio prosiectau rhyngwladol i gysylltu ysgolion sy'n seiliedig ar themâu'n ymwneud â'r Nodau, tebyg i'r rhai a gynhelir trwy raglenni megis CCGL. Aeth ysgolion yn Hull a Freetown, Sierra Leone ati ar y cyd i sefydlu Cyngor Disgyblion Rhyngwladol er mwyn rhoi llais i'w pobl ifanc a'u grymuso i weithredu. Mae'r disgyblion wedi cydweithio i ddysgu am Nodau penodol a gweithredu arnynt yn eu hysgolion eu hunain, er enghraifft lleihau'r defnydd o blastig untro (Nod 12: Arferion defnyddio a chynhyrchu cyfrifol).



**ASTUDIAETH ACHOS** YSGOLION YN GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH AR GYFER Y NODAU DATBLYGU CYNALIADWY

Gyda chyllid a chymorth trwy'r rhaglen CCGL, mae clwstwr o ysgolion ledled Swydd Gaer, ynghyd â chwe ysgol bartner yn Kenya, yn cydweithio i ddysgu *am* ac *ar gyfer* y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Dan arweiniad Alison Hooper, pennaeth Ysgol Gynradd Egerton, a Llysgennad i'r British Council, mae'r ysgolion yn y Deyrnas Unedig wedi'u trefnu'n chwe hwb yn ôl lleoliad, er mwyn eu galluogi i ymgysylltu â'u cymunedau lleol mewn modd effeithiol. Mae pob hwb wedi dethol un neu ragor o'r Nodau i ganolbwyntio arnynt, a hynny'n seiliedig ar y cyd-destun a'r anghenion lleol, gyda'r dysgwyr eu hunain yn chwarae rhan weithredol yn hyn. Er enghraifft, mae hwb o bedair ysgol o gymunedau ffermio gwledig o amgylch Northwich yn archwilio arferion defnyddio a chynhyrchu cyfrifol sy'n gysylltiedig â bwyd, tlodi a chydraddoldeb (Nodau 1, 5 a 12). Mae hwb sydd â chyd-destun economaidd gymdeithasol heriol wedi dewis Nod 2 (Dim newyn). Nodau 4 a 5 (Addysg o safon a Chydraddoldeb rhwng y rhywiau) fydd y ffocws ar gyfer y gwaith partneriaeth â'r ysgolion yn Kenya.

Mae'r ysgolion ym mhob hwb yn cynllunio mewn modd cydweithredol, gyda'r pwyslais ar gyfoethogi a gwella'r cwricwlwm presennol ac ethos yr ysgol, yn hytrach na bod hwn yn waith prosiect 'ychwanegol'. Mae ymgysylltu â'r gymuned yn agwedd bwysig, ac mae'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn cynnwys:

- gweithio gyda'r awdurdod lleol, cyngor y dref a busnesau tuag at fod yn ddefnyddwyr 'dim gwastraff' ac yn ysgolion diblastig;
- ysgrifennu llythyrau ar y cyd at eu ASau lleol yn manylu ar faterion allweddol yn yr ardal a'r gymuned leol (yn ogystal ag ar eu syniadau ar gyfer atebion);
- cynnal digwyddiadau i ddathlu gyda'r gymuned leol;
- meithrin cysylltiadau â sefydliadau sy'n weithredol yn y gymuned, er enghraifft Byddin yr Iachawdwriaeth a'r Gymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc (y YMCA); a
- defnyddio'r adnoddau Athroniaeth i Blant (P4C) a'r Labordy Empathi[18] i archwilio'r syniad o dlodi, ei effaith ar fywydau pobl, a dulliau posibl o'i ddatrys.

Trwy weithio gyda'i gilydd, mae'r ysgolion yn gobeithio cyflawni lefel uchel o gydweithredu a chymorth, gan arwain at ddatblygu arfer gorau a chyfleoedd i fyfyrio ar eu heffaith, a sicrhau bod eu gwaith yn parhau i fod yn effeithiol.

## **ASTUDIAETH ACHOS** DULL YSGOL GYFAN O YMDRIN Â'R NODAU DATBLYGU CYNALIADWY

Er 2015, mae Ysgol Gynradd Torriano yn Llundain wedi ystyried y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn ffordd effeithiol o ddatblygu'r cwricwlwm, fel ei fod yn galluogi disgyblion i ymchwilio i faterion cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n berthnasol i les pawb.

Mae'r ysgol yn dyfeisio ei themâu ei hun ar gyfer y cwricwlwm, themâu sy'n amserol, yn berthnasol yn lleol ac yn gysylltiedig â'r nodau; gan amlygu gwerthoedd cyffredinol megis cydraddoldeb rhwng y rhywiau, amrywiaeth ddiwylliannol, goddefgarwch a chynaliadwyedd amgylcheddol. Caiff pob thema ei haddysgu ar draws y cwricwlwm ac i'r ystod oedran gyfan, a hynny am flwyddyn. Mae'r dull hwn yn galluogi cymuned yr ysgol gyfan i gael ei llywio gan ddysgu dwfn, gan wella eu cyfleoedd i helpu i greu byd sy'n fwy cyfiawn a chynaliadwy.

Mae Torriano wedi cynnwys y gymuned o'r cychwyn cyntaf, a hynny trwy ei 'Gweithlu Cynaliadwy' o blant ac oedolion. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys helpu rhieni a gofalwyr i lenwi holiadur am y Nodau Datblygu Cynaliadwy er mwyn asesu eu gwybodaeth bresennol, a gosod tasgau gwaith cartref ar eu cyfer. Yn ystod blwyddyn academaidd 2016-17, aeth y disgyblion ati i lobïo arweinwyr yr ysgol i sefydlu Caffi Gwastraff Bwyd ar dir yr ysgol er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o Nod Datblygu Cynaliadwy 12 (Arferion defnyddio a chynhyrchu cyfrifol) a gweithredu arno. Mae hyn wedi eu galluogi i eirioli dros newid, a lleihau gwastraff bwyd a swm y cig a fwyteir. Mae llwyddiant parhaus y fenter yn ganlyniad i ymgysylltu â'r gymuned, gyda'r rhieni'n aml yn staffio'r caffi, ynghyd â chefnogaeth frwd gan fentrau lleol.

*'Os gallwn redeg caffi ar gyfer ein hysgol gyfan gyda'r holl fwyd a fyddai wedi cael ei daflu, yna dychmygwch beth y gallem ei wneud gyda'r holl fwyd sy'n cael ei daflu yn Llundain! Neu yn y byd!'* Aelod o'r Tasglu Cynaliadwyedd



## **ASTUDIAETH ACHOS** LLAMU O 'ELUSEN' I 'GYFIAWNDER CYMDEITHASOL'

Mae llawer o'r dysgwyr yn Ysgol Uwchradd Ashleigh yn Swydd Gaer, sy'n ysgol arbennig ar gyfer plant ar y sbectrwm awtistig, yn cael trafferth gweld pethau o unrhyw safbwynt ac eithrio eu safbwynt eu hunain. Aeth yr ysgol ati i gynnal prosiect Masnach Deg wythnos o hyd ar 'Safbwyntiau Ehangach', a hynny gyda myfyrwyr o Brifysgol Liverpool Hope. Nod y prosiect oedd meithrin ymwybyddiaeth am fasnach (Nod Datblygu Cynaliadwy 8: Gwaith boddhaol a thwf economaidd), nid yn unig ar gyfer dysgwyr a staff, ond hefyd ar gyfer cymuned gyfan yr ysgol.

Roedd y dysgwyr wedi cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau'n ymwneud â masnach, er enghraifft archwilio'r gadwyn gyflenwi y tu ôl i far siocled, gyda chysylltiadau â Mathemateg, Daearyddiaeth, Dinasyddiaeth ac Addysg Grefyddol. Yna, cawsant gyfle i gymryd rhan mewn teithiau a digwyddiadau, a oedd yn cynnwys ymweliad gan gynhyrchydd bananas sy'n rhan o'r cynllun Masnach Deg, a drefnwyd gan Ganolfan Addysg Datblygu leol yr ysgol.

Wedi'u hysbrydoli gan yr hyn yr oeddent wedi'i ddarganfod, aeth y dysgwyr ati i gynllunio a chymryd rhan mewn 'bore coffi â chydwybod', a oedd yn cysylltu â gwaith yr ysgol ar hawliau dynol. Roedd cynllunio a threfnu'r bore coffi Masnach Deg yn cynnwys paratoi posteri; dosbarthu taflenni yn lleol; cysylltu â sefydliadau megis Traidcraft a Starbucks; pobi cacennau; ac ymgysylltu â rhieni, ymwelwyr ac aelodau o'r cyhoedd trwy: weini ar y stondinau; bod yn 'gyfarchwyr'; tywys pobl o amgylch; ac egluro pam y gall prynu cynhyrchion masnach deg helpu ffermwyr a chynhyrchwyr sydd ar waelod y gadwyn gyflenwi. Ym mhob cam, roedd y dysgwyr nid yn unig yn dysgu ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth o bynciau'r cwricwlwm, er enghraifft Mathemateg a Daearyddiaeth, ond roeddent hefyd yn magu sgiliau bywyd a chyfathrebu newydd, yn ogystal â meithrin sgiliau meddwl, hyblygrwydd meddwl, empathi, a'u gallu i weld pethau o safbwynt mwy byd-eang.

*'Roedd cynllunio ar gyfer ein "bore coffi â chydwybod" wedi helpu'r myfyrwyr i ddechrau gwneud y naid o fore coffi "elusennol" i fore coffi ar gyfer "cyfiawnder cymdeithasol".'* Fiona Lawrenson, Arweinydd Pwnc Daearyddiaeth.



## Asesu cynnydd dysgwyr a dathlu llwyddiant

Mae'n werth cynllunio taith ddysgu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy fel y gellir cynnal gwaith monitro cyn ac ar ôl yr effaith a'r ymgysylltu. Er enghraifft, gallai eich dysgwyr symud o gam cynnar o feithrin gwybodaeth am themâu'r Nodau, i feddwl yn feirniadol a nodi cysylltiadau rhyngddisgyblaethol, ac yna i ystyried cyfleoedd o ran cymryd camau hunangyfeiriedig ar gyfer y Nodau. Gallai rhai gweithgareddau dysgu eu cynnig eu hunain i asesu trwy gyfrwng holiadur cyn ac ar ôl eu cynnal, tra gallai offeryn myfyriol parhaus, tebyg i ddyddiadur, fod yn ofynnol ar gyfer eraill. Mae pecynnau cymorth yn bodoli ar gyfer mesur newid agweddol o ran dysgu byd-eang, er enghraifft *How do we know it's working?* (datblygwyd gan Reading International Solidarity Centre – RISC)[19] a *Mesuring Global Citizenship Education: A collection of practices and tools.*[20]

Mae cydnabod a rhannu dysgu a syniadau trwy lwyfannau ar-lein, neu drwy ddigwyddiadau dangos a dweud yn y gymuned, yn ffyrdd defnyddiol o ddathlu gwaith ar ddysgu byd-eang a hefyd o alluogi dysgwyr (ac addysgwyr) i gysylltu ag eraill o amgylch y byd.

# GOLWG FANWL AR Y NODAU DATBLYGU CYNALIADWY

## Fframwaith y Nodau Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn cynnig fframwaith pwerus i alluogi pob un ohonom i ddysgu a meddwl am sut i sicrhau bod y byd yn well lle, ac i weithredu ar hynny. Mae'n werth eu hystyried mewn perthynas â datganiadau ac ymrwymiadau eraill gan y Cenhedloedd Unedig, er enghraifft y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)[21] neu Gytundeb Paris ar Newid yn yr Hinsawdd.[22] Mae'r 17 o Nodau yn cwmpasu amrywiaeth eang o dargedau, ac maent weithiau'n cael eu grwpio'n llac yn bum thema drosfwaol: **pobl, y blaned, ffyniant, heddwch a phartneriaeth.** Mae'r nodau'n cwmpasu nifer o faterion lleol a byd-eang enbyd, o ddileu pob ffurf ar dlodi ymhobman (Nod 1), i ddileu newyn a chyflawni sicrwydd bwyd a gwell maethiad (Nod 2), lleihau anghydraddoldeb mewn gwledydd a rhyngddynt (Nod 10), a chymryd camau gweithredu brys i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau (Nod 13).

Ffaith bwysig am yr 17 o nodau yw fod pob un ohonynt yn rhyng-gysylltiedig ac yn cefnogi ei gilydd – ni ellir cyflawni'r un ohonynt ar ei ben ei hun, heb gymorth y nodau eraill. Er enghraifft, caiff addysg ei chwmpasu gan Nod 4 (Addysg o safon – 'Sicrhau addysg gynhwysol a theg, o safon, a hyrwyddo cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb')[23], ond caiff addysg – er enghraifft, i gynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus – hefyd ei chydnabod yn ofyniad hanfodol ar gyfer cyflawni nodau eraill, er enghraifft Nod 12 (Arferion defnyddio a chynhyrchu cyfrifol). Yn yr un modd, mae Nod Datblygu Cynaliadwy 5 (Cydraddoldeb rhwng y rhywiau) yn canolbwyntio ar sicrhau cydraddoldeb ar gyfer menywod a merched, a'u grymuso, ond mae cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn rhan annatod o'r holl Nodau.[24]

Yn ogystal â bod yn gyffredinol a rhyng-gysylltiedig, mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn gynhwysol. Law yn llaw â'r nodau daw addewid i 'beidio â gadael unrhyw un ar ôl' – hynny yw, nid ystyrir bod unrhyw nod wedi ei gyflawni oni bai ei fod wedi cael ei gyflawni ar gyfer pawb.

### BETH YW'R CENHEDLOEDD UNEDIG?

Mae'r Cenhedloedd Unedig a'i deulu o asiantaethau, er enghraifft UNESCO, yn bodoli er mwyn sicrhau heddwch rhyngwladol, amddiffyn hawliau dynol a dileu tlodi. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn cael ei lywodraethu gan ei 193 o aelod-wladwriaethau, sy'n cydweithredu i fynd i'r afael â heriau'r byd, a hynny am fod cynifer o faterion byd-eang yn gofyn am gydlyniad a gweithredu rhyngwladol.

### BETH YW DATBLYGU CYNALIADWY?

Mae yna sawl diffiniad o ddatblygu cynaliadwy, ond i ddiben y canllaw hwn rydym wedi addasu diffiniad adnabyddus, cyffredin o *Ein Dyfodol Cyffredin* (a elwir hefyd yn Adroddiad Brundtland), sef adroddiad a gomisiynwyd gan y Cenhedloedd Unedig yn yr 1980au.[25] Mae Datblygu Cynaliadwy yn ymwneud â'r cydbwysedd rhwng diwallu anghenion pobl yn y presennol (llesiant, iechyd, datblygiad economaidd) heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (hynny yw, cynnal ecosystemau ac adnoddau naturiol). Felly, mae datblygu cynaliadwy yn golygu cynnydd amgylcheddol ar yr un pryd â chynnydd economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol. Mae datblygu cynaliadwy yn cydnabod yn groyw fod dimensiynau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn integredig wrth fynd i'r afael â heriau megis tlodi neu newid yn yr hinsawdd.

Mae diffiniadau eraill hefyd yn bodoli, er enghraifft Fframwaith yr Ysgolion Cynaliadwy sy'n seiliedig ar yr egwyddor gofal (gofalu amdanoch eich hun, am eraill ac am yr amgylchedd).[26]

## GWEITHGAREDD: ARCHWILIO CYSYLLTIADAU RHWNG Y NODAU DATBLYGU CYNALIADWY (OED 7+)

**Nod:** Mae'r gweithgaredd hwn yn galluogi'r cyfranogwyr i ystyried i ba raddau ac ym mha ffordd y mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn rhyngberthynol ac yn cefnogi'r naill a'r llall.

**Adnoddau**
- Dalennau mawr o bapur
- Nodiadau gludiog

### Yr hyn y dylid ei wneud

- Trefnwch y cyfranogwyr yn grwpiau o dri neu bedwar. Gofynnwch i bob grŵp ddewis rhwng pump ac wyth o'r 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy (yn dibynnu ar eu gallu) ac ysgrifennu'r rhain ar wahân ar ddalen fawr o bapur.
- Dylai'r cyfranogwyr 'nawr weithio gyda'i gilydd yn eu grwpiau i gysylltu pob un o'r nodau â phob un arall trwy fater neu thema (a all fod o arwyddocâd byd-eang, cenedlaethol a/neu leol) er mwyn creu gwe o gysylltiadau. Er enghraifft, gallai cysylltu Nod 1 (Dim tlodi) â Nod 3 (Iechyd a llesiant da) arwain at ystyried sut y byddai gwella iechyd a llesiant pobl yn un o fuddion lleihau tlodi.
- Anogwch y cyfranogwyr i rannu eu myfyrdodau trwy ddefnyddio'r awgrymiadau canlynol: Pa un o'ch Nodau Datblygu Cynaliadwy yw'r pwysicaf yn eich barn chi, a pham? A ydych yn meddwl y bydd hyn yn wir ym mhob gwlad a chymuned? A ydych yn meddwl y bydd unrhyw rai o'r Nodau yn gallu cael eu cyflawni ar eu pen eu hunain heb y Nodau eraill?
- Yna, gallai'r cyfranogwyr weithio gyda'i gilydd yn eu grwpiau i restru'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a ddewiswyd yn ôl trefn eu pwysigrwydd. Rhowch amser i'r cyfranogwyr rannu eu rhestrau a'r rhesymau drostynt â'r grwpiau eraill.

### Syniadau pellach

- Dewiswch un o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, er enghraifft Addysg o ansawdd (Nod 4) neu Cydraddoldeb rhwng y rhywiau (Nod 5). Cynorthwywch y dysgwyr i nodi ffyrdd y mae'r Nod hwn yn cysylltu â'r holl Nodau eraill.
- Fel gweithgaredd estynedig, gallai'r cyfranogwyr ganolbwyntio ar y Nod Datblygu Cynaliadwy a oedd bwysicaf yn eu barn nhw, a darganfod gwybodaeth am ei dargedau cysylltiedig. Pa rai o'r targedau hyn sydd fwyaf perthnasol i'ch cymuned leol yn eich barn chi, a pham?
- Mae gweithgareddau Practical Action, *Global Goals string* a *Who's responsible*, yn helpu'r dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng y Nodau Datblygu Cynaliadwy, ac i feddwl yn feirniadol am y berthynas rhwng gweithredoedd personol a gweithredoedd sy'n ymwneud â'r gymdeithas yn ehangach.[27]



*Yn rhan o'u prosiect Cysylltu Ystafelloedd Dosbarth yn Freetown/Hull, mae athrawon yn Sierra Leone yn archwilio cysylltiadau rhwng y Nodau Datblygu Cynaliadwy.*

> 'Mae cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn fwy na nod ynddo'i hun. Mae'n rhagofal ar gyfer cyflawni'r her o leihau tlodi, hyrwyddo datblygu cynaliadwy a meithrin llywodraethu da.'
> Cyn-ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Kofi Annan

## Mesur cynnydd

Dimensiwn hanfodol o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yw eu mesur, sy'n defnyddio set o 232 o ddangosyddion unigol. Mae'r dasg o fesur cynnydd (neu ddiffyg cynnydd) tuag at y nodau yn u gymhleth ond, ar gyfer dysgwyr hŷn ac athrawon, mae'n agwedd ddiddorol ar y Nodau y gellir ei harchwilio ymhellach o ran cymhlethdod y broses o gasglu data dibynadwy.

Nid yw'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn rhwymo mewn cyfraith. Fodd bynnag, mae gan bob un o aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig ddyletswydd i roi gwybod i ba raddau y maent yn gwneud cynnydd tuag at y targedau a'r nodau. Mae llywodraethau gwahanol wedi ymateb mewn ffyrdd gwahanol – er enghraifft, rhai gyda chynlluniau gweithredu clir, eraill gyda strategaethau rhannol, ac eraill heb unrhyw gynllun cydlynol o gwbl. Y Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel ar Ddatblygu Cynaliadwy yw corff y Cenhedloedd Unedig lle mae gwledydd yn dod ynghyd i rannu eu profiadau a dysgu am arfer gorau.

Mae Rhanddeiliaid y Deyrnas Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (UKSSD) yn rhwydwaith traws-sector o sefydliadau sydd wedi dod ynghyd i gefnogi gwaith y Deyrnas Unedig o weithredu a mesur y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Yn 2018, aeth yr UKSSD ati i gydlynu'r adroddiad, *Measuring up*, a oedd yn cynnwys dros 100 o sefydliadau (gan gynnwys cyrff anllywodraethol a busnesau).[28] Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cyfrif cynhwysfawr o'r hyn sy'n digwydd ar gyfer pobl, yr amgylchedd a'r economi yn y Deyrnas Unedig o ran pob un o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a'u targedau. Roedd yr adroddiad yn nodi'r canlynol: 'O blith y 143 o dargedau perthnasol, canfu UKSSD fod y Deyrnas Unedig yn perfformio'n dda yn achos 24%, gyda 57% lle mae yna fylchau o ran cwmpas y polisi neu lle nad yw'r perfformiad yn ddigonol, a 15% lle nad oes yna unrhyw bolisi ar waith, neu ddim ond ychydig bach, i fynd i'r afael â'r targed, neu lle mae'r perfformiad yn wael'.[29]

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn gyfrifol am adrodd ar gynnydd y Deyrnas Unedig, ac mae'n llunio adroddiadau diweddaru a data ar hynny. Yn ogystal â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae Cynulliad Cymru, Llywodraeth yr Alban, Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) Gogledd Iwerddon, a grwpiau cymdeithasol sifil yn monitro cynnydd mewn ardaloedd a rhanbarthau gwahanol.

Efallai yr hoffech fyfyrio gyda'ch dysgwyr ar gymhlethdod y broses o fesur y nodau hyn a'u targedau niferus. Yn ystod sesiynau Daearyddiaeth a Mathemateg, er enghraifft, gallech archwilio'r ffyrdd y gallai mesur nodau a/neu dargedau penodol fod yn heriol. Gallai'r dysgwyr hefyd ystyried sut y gall arloesedd gwyddonol (er enghraifft, gwell technoleg i fesur y defnydd o ynni) wella'r prosesau monitro.

**ASTUDIAETH ACHOS** CYNNWYS Y DYSGWYR WRTH ASESU'R CYNNYDD A WNAED I GYFLAWNI'R NODAU

Cymerodd dysgwyr yn Ysgol Gynradd Torriano yn Llundain ran mewn grŵp ffocws ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy, a drefnwyd gan UNICEF, a hynny cyn Adolygiad Cenedlaethol Gwirfoddol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2019,[30] a oedd yn asesu'r cynnydd a wnaed tuag at y nodau ac yn ystyried beth arall y mae angen ei wneud. Amcan y grŵp ffocws oedd bod y dysgwyr yn rhannu eu safbwyntiau o ran pa rai o'r Nodau yw'r pwysicaf, yn myfyrio ar eu dysgu yn yr ysgol am ac ar gyfer y nodau, ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynghylch y camau gweithredu pellach y dylid eu cymryd i roi'r Nodau ar waith ac i feithrin ymwybyddiaeth ohonynt. Roedd yr argymhellion yn cynnwys cynyddu'r isafswm cyflog, darparu bysiau ysgol trydan, creu treth ar blastig untro, cynnwys y Nodau yn y cwricwlwm, trefnu diwrnod Nodau Datblygu Cynaliadwy cenedlaethol, a datblygu ap ar gyfer ffonau sy'n tynnu sylw pobl at y cynnydd a wneir o ran y nodau.



## Cryfderau a chyfyngiadau'r Nodau Datblygu Cynaliadwy

Mae Oxfam yn argymell ffordd ymchwiliol o ymdrin â dysgu byd-eang ac unrhyw ymgysylltu â'r Nodau yn yr ystafell ddosbarth, sy'n cynnwys cyfnod o fyfyrio cyn cymryd unrhyw gamau gweithredu. Mae i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy nifer o gryfderau, ond hefyd rai cyfyngiadau, ac mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod yna ystod gyfatebol o safbwyntiau a phersbectifau arnynt. Po hynaf yw eich dysgwyr, mwyaf y gallai fod arnoch eisiau archwilio rhai o'r beirniadaethau ar y Nodau, ochr yn ochr â'u cryfderau. Er enghraifft, gallech ystyried y feirniadaeth bod y Nodau'n ddiffygiol am eu bod yn gwarchod sefydliadau mwyaf cyfoethog a phwerus y byd rhag unrhyw gyfrifoldeb pendant. Anfantais posibl arall i'r Nodau yw eu bod yn eang iawn. Gyda chynifer o nodau (a thargedau), mae'n anodd blaenoriaethu'r rhai mwyaf pwysig. Mae rhai pobl yn dadlau bod ambell darged yn rhy optimistaidd ac, felly, yn afrealistig. Mae pobl eraill yn dadlau bod y Nodau yn parhau i ymgorffori twf economaidd fel blaenoriaeth dybiedig, yn hytrach na chynnydd cymdeithasol neu amgylcheddol. Mae Mynegai'r Blaned Hapus[31] a Mynegai Dynoliaeth Oxfam[32] yn defnyddio dulliau a dangosyddion gwahanol i fesur yr hyn sy'n sicrhau bywyd da, hapus a chynaliadwy.

Ar y llaw arall, mae yna bobl sy'n gwrth-ddweud yr asesiadau hyn trwy ddadlau y byddai unrhyw set o nodau yn amherffaith ond bod y Nodau Datblygu Cynaliadwy, serch hynny, yn cael effaith sylweddol. Er enghraifft, mae'r Nodau bellach yn cael eu hyrwyddo ar amrywiaeth eang o lefelau, o gael eu cymeradwyo gan enwogion ar Twitter, i gael eu hymgorffori ym mhrosesau buddsoddi busnesau mawr ac ym mentrau cymunedau lleol. Efrog Newydd yw'r ddinas fawr gyntaf i ddatgan y bydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cenhedloedd Unedig am ei chynnydd tuag at dargedau perthnasol y Nodau ar gyfer 2030.[33] Mae rhai gwledydd – er enghraifft Ecwador – yn dewis canolbwyntio ar nodau penodol ac yn defnyddio'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn arf i werthuso eu blaenoriaethau eu hunain ac i amlygu eu gwaith i weddill y byd, yn hytrach nag i bennu agendâu datblygu newydd.

Wedi dweud hynny, mae yna gydnabyddiaeth eang fod y Nodau yn fwy uchelgeisiol na chyraeddadwy. Efallai yr hoffech archwilio natur uchelgeisiol y Nodau ac effeithiolrwydd gosod nodau gyda'ch dysgwyr, a hynny trwy nodi na fyddwn, o bosibl, yn cyflawni popeth, ond bod nodau yn gallu ein helpu i gymryd camau sylweddol i'r cyfeiriad iawn: er na allwn gyflawni popeth, nid yw hyn yn golygu na ddylem geisio gwneud rhywbeth.



Efallai na fyddwn yn cyflawni popeth ond gall nodau ein helpu i gymryd camau sylweddol i'r cyfeiriad iawn.

# Y CAMAU NESAF

## Syniadau ymarferol ar gyfer ymgorffori'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ar draws y cwricwlwm

Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn cynnig nifer o gyfleoedd amrywiol ym mhob maes pwnc ar gyfer dysgu am fywyd go iawn, gan alluogi pobl ifanc i ddysgu a meddwl am faterion byd-eang a gweithredu arnynt. Dyma ychydig o syniadau ymarferol i roi rhywfaint o ysbrydoliaeth. Gallai nifer o'r enghreifftiau hyn gael eu haddasu'n rhwydd ar gyfer dysgwyr iau neu hŷn. Mae adroddiad a luniwyd yn 2019 gan y Gymdeithas Genedlaethol dros Addysg Amgylcheddol (y Deyrnas Unedig) yn darparu fframwaith defnyddiol sy'n amlinellu cyfleodd posibl ar gyfer cysylltu'r Nodau â'r cwricwlwm.[34]




Aeth ysgolion ati i greu murluniau ar gyfer gŵyl gerddoriaeth Glastonbury, yn rhan o ymgyrch Oxfam, Sefyll Fel Un, sy'n galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud rhagor i gefnogi pobl sy'n cael eu gorfodi i ffoi o'u cartrefi.

### Celf a Dylunio

- Ymchwilio i'r modd y mae materion a themâu byd-eang sy'n gysylltiedig â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, er enghraifft heddwch, gwrthdaro a chyfiawnder, yn cael eu cynrychioli ym myd celf. (Nod 16)
- Defnyddio celf fel ffordd o fynegi barn, syniadau a dymuniadau ynghylch dyfodol ein hamgylchedd – gan gymryd ysbrydoliaeth o waith artistiaid megis Banksy, Mathilde Roussel, Moses Ochieng a Marina DeBris. Gallai'r dysgwyr anfon eu syniadau a'u cynlluniau at gynrychiolydd neu adran gynllunio eu llywodraeth leol. (Nodau Datblygu Cynaliadwy 7, 11, 12, 13, 14 a 15)

### Dinasyddiaeth

- Darganfod dyfyniadau gwahanol am addysg ar y Rhyngrwyd, a defnyddio'r rhain i ysgogi'r broses o feddwl yn feirniadol am yr hyn y mae'n ei olygu i sicrhau addysg gynhwysol, deg ac o safon. Gallai'r dysgwyr gynnal archwiliad o gynhwysiant a thegwch eu hysgol eu hunain, ac ystyried ffyrdd o wneud gwelliannau. (Nodau 4 a 5)
- Archwilio'r 'lleol yn y byd-eang'. Cynnal arolwg yn eich cymuned leol i nodi'r anghenion a'r heriau sy'n gysylltiedig â themâu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mynd am dro o amgylch eich ardal leol a thynnu lluniau neu wneud brasluniau. Neu, cyf-weld â rhieni neu bobl eraill yn y gymuned i ddarganfod beth yw eu pryderon. Trafod a phenderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer eich cymuned cyn ystyried dulliau posibl o sicrhau newidiadau cadarnhaol. (Pob Nod)
- Meddwl am ffyrdd gwahanol o sicrhau bod gwaith yn foddhaol, sydd i gynnwys cyflog, iechyd, diogelwch a lles, cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng amgylcheddau gwaith yn y Deyrnas Unedig ac mewn gwledydd eraill? Ymchwilio i'r ffyrdd yr eir i'r afael â'r materion hyn – er enghraifft, trwy waith undebau llafur i gynnal hawliau gweithwyr. (Nod 8)
- Ymchwilio i'r ffordd y mae'r Cenhedloedd Unedig yn gweithio a'r hyn y mae'n ei wneud. Sut y daeth i fod? Sut y mae ei aelodau yn gwneud penderfyniadau? A oes gan bob cenedl lais cyfartal? Defnyddio chwarae rôl a cheisio darganfod atebion i faterion byd-eang trwy gymryd rhan mewn model o'r Cenhedloedd Unedig.[35] (Nod 16)

### Cyfrifiadureg a TG

- Archwilio effeithiau cadarnhaol a negyddol technoleg ar unigolion, cymunedau a'n planed. Er enghraifft, ystyried materion sy'n ymwneud â chynhyrchu, defnyddio a gwaredu ffonau symudol, yn ogystal â rôl bresennol ac, o bosibl, gadarnhaol, technoleg wrth feithrin ymwybyddiaeth o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a mynd i'r afael â heriau byd-eang. (Nod 12)
- Datblygu meddwl cyfrifiadurol, cymwysiadau a chreadigrwydd er mwyn deall a mynd i'r afael â heriau yn y byd go iawn. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr gasglu a dadansoddi data ar gyfer y tywydd a'r hinsawdd yn lleol, a defnyddio hyn i lywio argymhellion ar gyfer camau gweithredu y gellid eu cymryd yn lleol i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. (Nod 13)
- Defnyddio meddalwedd addysgol amrywiol i rannu syniadau dysgu am y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Defnyddio offer rhithwir yn yr ystafell ddosbarth i alluogi'r dysgwyr i gysylltu a rhannu eu syniadau â phobl ifanc mewn rhannau eraill o'r byd. (Pob Nod)

Aeth y dysgwyr yn Presentation College Bray yn Iwerddon ati i ddefnyddio'r gêm ar-lein, Minecraft, i ail-greu eu hysgol mewn byd rhithwir a'i hailddylunio i gyd-fynd â'r Nodau. Roedd cymuned yr ysgol gyfan yn rhan o'r broses o ystyried y materion a'r datrysiadau posibl.[36]

### Dylunio a Thechnoleg

- Cynllunio, dylunio a chreu cynnyrch, system neu dechnoleg ar gyfer eich ardal leol, a fydd yn cyfrannu at gyflawni targedau un neu ragor o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. I gael ysbrydoliaeth, gallai'r dysgwyr ddefnyddio adnoddau gan Academi Frenhinol y Peirianwyr i archwilio syniadau arloesol yr unigolion ar y rhestr fer, yr unigolion yn y rownd derfynol ac enillwyr Gwobr Affrica ar gyfer Arloesedd Peirinyddol. Mae'r wobr hon yn annog ac yn dathlu gwaith peirianwyr uchelgeisiol a thalentog yn Affrica Is-Sahara sy'n datblygu datrysiadau i heriau yn eu cymunedau lleol.[37] (Pob Nod)
- Dadansoddi materion moesegol a chynaliadwyedd mewn systemau bwyd, ynghyd â ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a gwleidyddol sy'n effeithio ar faetheg. (Nod 2)



### Saesneg, Astudiaethau Cyfryngau a Drama

- Ysgrifennu taflen neu greu poster sy'n perswadio eraill i weithredu er mwyn gwarchod bywyd ar y tir neu o dan y dŵr. Dylai'r dysgwyr nodi eu hachos mewn modd clir, effeithiol a pherswadiol, gan ddefnyddio enghreifftiau pendant a thystiolaeth gefnogol. Neu, gallent ysgrifennu a chyflwyno erthyglau papur newydd neu anfon llythyrau at fusnes lleol neu gynrychiolydd eu llywodraeth leol. (Nodau 14 ac 15)
- Meithrin empathi, archwilio persbectifau gwahanol, a chydnabod cymhlethdod materion byd-eang trwy ddefnyddio dulliau chwarae rôl i gyfleu themâu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Er enghraifft, defnyddio seddi poeth neu rewluniau i gyfleu cymunedau y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnynt, neu bobl sy'n cael eu gorfodi i ffoi o'u cartrefi oherwydd gwrthdaro. (Pob Nod)
- Defnyddio amrywiaeth eang o straeon a thestunau o bob cwr o'r byd i egluro materion sy'n gysylltiedig â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Gweler rhestr Signpost, *Global Citizenship through fiction*[38] a chanllaw Oxfam ar Saesneg a Dinasyddiaeth Fyd-eang[39] am awgrymiadau ar gyfer teitlau llyfrau. (Pob Nod)
- Nodi ffeithiau, barn, stereoteipio a thueddiadau mewn adroddiadau ar y newyddion ac yn y cyfryngau. Er enghraifft, defnyddio fideos o'r Gwobrau Radi-Aid i ysgogi prosesau meddwl a thrafodaethau ynghylch stereoteipiau a thybiaethau y mae pobl yn aml yn eu gwneud mewn perthynas â thlodi.[40] Neu, dadansoddi delweddau a straeon yn y cyfryngau sy'n ymwneud â menywod a dynion, yn unol â meini prawf megis cymeriadau gweithredol o gymharu â chymeriadau goddefol, y mathau o weithgarwch, neu stereoteipio. (Nodau 1 a 5)

### Daearyddiaeth/Astudiaethau Modern

- Meddwl yn feirniadol am y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Beth y mae datblygu cynaliadwy yn ei olygu? A yw'r nodau'n ddim mwy na rhestr o ddymuniadau, neu a ydynt yn set realistig o dargedau i'r byd anelu atynt? A ydynt yn mynd i'r afael â'r heriau byd-eang allweddol y mae ein planed yn eu hwynebu, neu a oes yna rai materion sy'n eisiau? A ydynt yn rhoi blaenoriaeth i dwf economaidd dros nodau cymdeithasol ac amgylcheddol? (Pob Nod)
- Ymchwilio i ffyrdd gwahanol o fesur datblygiad. Casglu a dadansoddi data i nodi anghydraddoldebau o fewn gwledydd a rhwng gwledydd, ac ystyried achosion posibl y bylchau hyn, yn ogystal â datrysiadau dichonadwy. (Nod 10)
- Defnyddio olwyn ganlyniadau i feddwl am effeithiau heriau byd-eang megis anghydraddoldeb rhwng y rhywiau neu fynediad anghyfartal at addysg. I gael rhagor o fanylion, gweler t.14 o *Oxfam's Global Citizenship in the Classroom: A guide for teachers*.[41] (Pob Nod Datblygu Cynaliadwy)

### Hanes

- Ymchwilio i nodweddion newyn trwy gydol hanes hyd at heddiw, a'u cymharu. (Nod 2)
- Ymchwilio i ddigwyddiadau arwyddocaol sydd wedi digwydd mewn perthynas â chydraddoldeb rhwng y rhywiau ledled y byd a thrwy gydol hanes, ac ystyried arwyddocâd gweithredu unigol ac ar y cyd i gyflawni hyn. (Nod 5)
- Astudio effeithiau cadarnhaol a negyddol diwydianeiddio ar gymdeithas. Gallai hyn fod ar lefel leol, genedlaethol a/neu fyd-eang. Meddwl yn feirniadol am bosibiliadau ar gyfer y dyfodol, ynghyd â rôl diwydiant, arloesedd a seilwaith o ran creu'r posibiliadau hyn. (Nod 9)

### Mathemateg

- Darganfod, dehongli, cyflwyno a thrin data sy'n mesur cynnydd tuag at y Nodau Datblygu Cynaliadwy, er enghraifft ystadegau ar fynediad at ddŵr glân, trydan ac addysg. Gweler *Rhagor o wybodaeth a ffynonellau data* ar t.30. (Pob Nod)
- Defnyddio'r cysyniad o rannu i archwilio ystyr cydraddoldeb. Defnyddio cymarebau, ffracsiynau a chanrannau i fynegi dosraniadau cyfartal ac anghyfartal gwahanol. (Nod 10)
- Casglu data ar eich defnydd dyddiol o ynni neu ddŵr – yn unigol neu ar gyfer eich dosbarth neu ysgol. Ystyried ffyrdd o leihau'r defnydd, gosod targedau a monitro cynnydd tuag at y rhain. (Nod 6)

### Ieithoedd Tramor Modern

- Archwilio'r sylw gan y cyfryngau i faterion gwahanol sy'n ymwneud â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy mewn ieithoedd megis Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg a Phortiwgaleg. Cymharu sylw'r cyfryngau mewn gwledydd gwahanol. Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol o ran y sylw? Beth a allai'r rhesymau fod dros y gwahaniaethau? (Pob Nod)
- Creu canllawiau teithio i wlad lle mae'r iaith a astudir yn cael ei siarad, ac ymgorffori cymaint o weithgareddau twristiaeth cynaliadwy â phosibl. Ystyried a thrafod pa un a all twristiaeth fod yn gynaliadwy ai peidio. (Nod 11)

### Cerddoriaeth

- Ystyried rôl cerddoriaeth trwy gydol hanes hyd at heddiw o ran herio anghyfiawnder cymdeithasol, er enghraifft yn ystod y mudiad hawliau sifil yn yr Unol Daleithiau. Gweler adnodd Oxfam, Raising our Voices, am syniadau ar gyfer gweithgareddau.[42] (Nod Datblygu Cynaliadwy 16)
- Ymchwilio i ffyrdd eraill y mae cerddoriaeth yn cael ei defnyddio i sicrhau newid cadarnhaol – er enghraifft, Cerddorfa Eildro Cateura ym Mharagwâi sy'n chwarae offerynnau a wnaed o ddeunydd o safleoedd tirlenwi;[43] Cerddorfa Divan y Gorllewin-Dwyrain, sy'n annog heddwch trwy ddwyn ynghyd gerddorion o Israel, Palesteina a gwledydd Arabaidd eraill;[44] neu waith yr artist Pedro Reyes yn trawsnewid arfau a ddatgomisiynwyd yn offerynnau cerdd. (Nodau 12 ac 16)

### Addysg Bersonol, Gymdeithasol, Iechyd ac Economaidd

- Myfyrio ar y gwahaniaethau rhwng anghenion, dymuniadau a hawliau. Ystyried yr hyn y mae angen i ni ei wneud 'yn dda' mewn bywyd, a'r modd y mae'r anghenion hyn yn berthnasol i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Gweler adnoddau Oxfam, *Hawliau Plant*, i gael gweithgareddau creadigol ar gyfer yr ystafell ddosbarth.[45] (Pob Nod)
- Defnyddio'r Nodau Datblygu Cynaliadwy i gefnogi gwaith myfyrio ar ba mor ddefnyddiol yw gosod nodau. Ystyried yr hyn y mae llwyddiant yn ei olygu – a fydd y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn llwyddiant dim ond os cânt eu cyflawni'n llawn? Trafod pwysigrwydd rhinweddau megis gwytnwch, gwaith tîm a'r gallu i addasu wrth weithio i gyflawni nodau. (Pob Nod)
- Meddwl yn feirniadol am y modd y mae'r dewisiadau yr ydym ni ddefnyddwyr yn eu gwneud yn effeithio ar economïau, amgylcheddau a bywydau gwaith pobl eraill. (Nodau 3, 8, 12 ac 13)

### Addysg Gorfforol

- Defnyddio cyd-destun chwaraeon i feddwl am y modd y mae tegwch yn berthnasol i reolau. Gallai'r dysgwyr ystyried sut y gellid defnyddio rheolau i sicrhau bod camp yn fwy cynhwysol, cyn mynd ati i lunio eu rheolau eu hunain ar gyfer digwyddiad chwaraeon 'teg', lle gall pawb gymryd rhan. (Nodau 10 ac 16)
- Ystyried rôl a phwysigrwydd deiet cytbwys ac ymarfer corff ar gyfer hybu iechyd da a llesiant. (Nod 3)
- Meithrin dealltwriaeth y dysgwyr o bwysigrwydd gwaith tîm ar gyfer meithrin ymddiriedaeth ymhlith unigolion ac i ddatrys problemau. (Nod 17)



### Addysg Grefyddol

- Archwilio rôl credoau crefyddol a sefydliadau seiliedig ar ffydd o ran gweithio tuag at liniaru tlodi. (Nod 1)
- Defnyddio syniadau gwahanol am y greadigaeth i ysgogi myfyrdod a thrafodaeth ar y weledigaeth sydd gan y dysgwyr ar gyfer eu cymunedau, ′nawr ac yn y dyfodol. (Nod 11)
- Archwilio credoau ac athrawiaethau crefyddol ynghylch heddwch a gwrthdaro, er enghraifft gwerthoedd neu dystiolaeth Mudiad y Crynwyr, neu beidio â niweidio, un o′r gwirebau sy′n sail i′r Llwybr Wythblyg Nobl mewn Bwdhaeth. (Nod 16)

### Gwyddoniaeth

- Defnyddio tywod, cerrig bach, glaswellt a deunyddiau naturiol eraill i hidlo dŵr mwdlyd i′w gael mor lân â phosibl. Gallai′r dysgwyr wedyn ystyried pa un a yw′r dŵr glân yr olwg sy′n cael ei gynhyrchu yn ddiogel i′w yfed. Gallent hefyd ymchwilio i glefydau a gludir gan ddŵr a sut i′w hatal. Rhowch gynnig ar *Ditch the Dirt* gan Practical Action.[46] (Nod Datblygu Cynaliadwy 6)
- Ymchwilio i weoedd bwyd morol, a′r effeithiau y mae pysgota masnachol a llygredd plastig yn eu cael arnynt. (Nod 14)
- Cynnal archwiliad o amgylch yr ysgol i nodi ffynonellau ynni, ac yna dosbarthu′r rhain yn rhai adnewyddadwy neu anadnewyddadwy. Chwilio am enghreifftiau o wastraff ynni, ac yna ystyried ffyrdd mwy effeithiol o ddefnyddio ynni. (Nod 7)



**ASTUDIAETH ACHOS** GWYDDONIAETH TRWY′R NODAU DATBLYGU CYNALIADWY

Mae Meryl Batchelder yn athrawes Gwyddoniaeth ac yn arweinydd clwb Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) yn Ysgol Ganol Corbridge yn Northumberland. Mae′n ymrwymedig i roi cyfle a hyder i′r bobl ifanc sydd yn ei hysgol fynd i′r afael â materion mawr trwy′r Nodau Datblygu Cynaliadwy, gan helpu i sicrhau bod y dysgu yn real ac yn gymhellol. Mae Meryl wedi cysylltu pob topig yng nghwricwla CA2 ac CA3 ag un neu ragor o′r Nodau – er enghraifft, trwy herio′r dysgwyr i greu eu tyrbinau gwynt eu hunain (Nod 7: Ynni glân a fforddiadwy – gweler *Wind Power Challenge* Practical Action).[47] Cefnogir y dysgwyr i ddeall natur ryngberthynol y Nodau cymaint â phosibl; mae nodi a thrafod unrhyw gysylltiadau rhwng eu dysgu a′r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn thema gyffredin yn y sesiynau llawn.

## **ASTUDIAETH ACHOS** Y PROSIECT *WINDOW*

Aeth rhwydwaith o ysgolion yng Nghymru ati i gydweithio trwy'r Rhaglen Dysgu Byd-eang a ariennid gan DFID (2013-2018) ac a oedd yn cefnogi addysgu a dysgu am faterion byd-eang. Dan arweiniad Ysgol Maes y Coed yng Nghastell-nedd, roedd y grŵp hwn yn cynnwys 12 o ysgolion arbennig o bob cwr o Gymru, sy'n darparu ar gyfer dysgwyr ag amrywiaeth eang o anghenion dysgu ychwanegol.

Roedd yr ysgolion yn cydweithio ar brosiect yn seiliedig ar *Window*, sef llyfr dieiriau Jeannie Baker am yr amgylchedd newidiol, sy'n procio'r meddwl. Mae'r lluniau yn y llyfr yn dangos yr olygfa o'r un ffenestr dros gyfnod o 20 mlynedd, gyda'r olygfa honno'n newid o wylltir ac awyr glir i ddinas orboblog, lygredig, ac yna'n ôl i olygfa fwy naturiol. Roedd y prosiect yn cynnig cyfle i'r dysgwyr archwilio'r byd trwy bersbectif synhwyraidd. Roedd y darluniau'n sbardun ar gyfer trafodaeth, a oedd wedi helpu'r dysgwyr i feithrin eu sgiliau llythrennedd, cyfathrebu a chymhwysedd digidol. Roedd y dysgwyr yn cael eu cefnogi i edrych trwy ffenestri yn eu hardaloedd eu hunain, ac i ystyried yr amgylchedd o'u cwmpas, yn ogystal â'u huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol (Nod 11: Dinasoedd a chymunedau cynaliadwy).



## **ASTUDIAETH ACHOS** DEFNYDDIO LENS ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY YN Y BLYNYDDOEDD CYNNAR

Plentyndod Cynnar ar gyfer Datblygu Cynaliadwy i gefnogi'r dysgu yn yr amgylchedd, amdano ac ar ei gyfer. Mae'r fframwaith hwn ar gael fel adnodd i'w weld trwy wefan y Blynyddoedd Sylfaen, yn yr adran 'hwb gwybodaeth'.[48]

Darparwr lleol sy'n mabwysiadu'r fframwaith hwn yw Meithrinfa Poulton Penguins yng Nghilgwri, sy'n darparu gofal ac addysg ar gyfer plant rhwng dwy oed ac oedran ysgol. Aeth addysgwyr ati i ddefnyddio'r llyfr lluniau, *Michael Recycle* gan Ellie Bethel ac Alexandra Colombo, i hyrwyddo dysgu, meddwl a gweithredoedd sy'n gysylltiedig ag arferion defnyddio a chynhyrchu cyfrifol (Nod 12). Bu'r plant yn defnyddio tecstilau a phapur gwastraff i greu eu '*Michael Recycle*' a'u 'Margaret Recycle' eu hunain, yn ogystal ag i wneud pethau eraill megis blodau a ffiolau. Ymhlith y gweithgareddau eraill yr oedd trefnu gwastraff yn 'ailddefnyddio', 'ailgylchu' a 'chompostio'; tyfu ffrwythau a llysiau; ac ailgylchu dŵr glaw.

## Blwch offer methodoleg

Isod, ceir enghreifftiau o ddulliau cyfranogol sy'n gweithio'n dda ar gyfer TAG, ac y gellir eu cymhwyso i fframwaith y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae UNESCO yn crynhoi methodolegau eraill yn ei gyhoeddiad yn 2018: *Preparing Teachers for Global Citizenship Education: A Template*.[49]

- **Athroniaeth i Blant (P4C)** Methodoleg sy'n gweithio'n dda gyda themâu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, lle mae pobl ifanc yn archwilio sbardun, yn llunio eu cwestiynau athronyddol eu hunain, ac yn meithrin eu sgiliau meddwl, rhesymu a chwestiynu trwy ddeialog.[50]
- **Dysgu Seiliedig ar Ymholi** Dull sy'n adnabyddus ym maes Daearyddiaeth, lle mae'n ymwneud cymaint â pha gwestiwn sy'n cael ei ofyn (a sut) â'r topig sy'n cael ei archwilio. Mae Margaret Roberts yn nodi pedair agwedd hanfodol i'w hystyried wrth gynllunio gwaith ymholi: creu angen i wybod; defnyddio data; gwneud synnwyr; a myfyrio ar y dysgu.[51]
- **Meddwl trwy Systemau** Pwyslais ar ddeall sut y mae systemau'n cael eu creu ac yn gweithredu, a sut y gellir eu newid neu eu herio (mae system yn gyfuniad o rannau sy'n dylanwadu y naill ar y llall, a'r syniad yw deall sut y mae'r rhannau gwahanol yn rhyngweithio â'i gilydd). Gall hon fod yn fethodoleg dda wrth weithio gyda dysgwyr hŷn a grwpiau o oedolion ar brosiectau lle mae angen archwilio achosion strwythurol a hanesyddol materion. Gweler y wefan *Learning for Sustainability* (LfS) am ddeunydd darllen cyflwyniadol defnyddiol.[52]
- **Dysgu Seiliedig ar Brosiectau (PBL)** Dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n cynnwys ymgysylltu â heriau yn y byd go iawn; mae'n gofyn am waith tîm ac am feddwl fel arbenigwr. Mae yna amrywiaeth o argymhellion ar-lein ar gyfer arfer PBL – er enghraifft, mae Gaia Education yn defnyddio dull dysgu seiliedig ar brosiectau.[53]
- **Mantell yr Arbenigwr** Dull sy'n defnyddio cyd-destunau dychmygol i lunio gweithgareddau pwrpasol a diddorol ar gyfer dysgu, lle mae'r athrawon yn cynllunio cyd-destun ffuglennol a'r dysgwyr yn ysgwyddo cyfrifoldebau tîm o arbenigwyr.[54]
- **Methodoleg Mannau Agored ar gyfer cynnal Deialog ac Ymholiad** Canllawiau awgrymedig ar gyfer creu 'mannau agored a diogel ar gyfer cynnal deialog ac ymholiad ynghylch materion a phersbectifau byd-eang sy'n canolbwyntio ar gyd-ddibyniaeth'.[55]



## Rhagor o adnoddau a chymorth

Mae gan elusennau a sefydliadau eraill gyfoeth o syniadau ar gael ar gyfer gweithgareddau a dulliau addysgol o ymdrin â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy. Mae'n bwysig ystyried adnoddau mewn modd beirniadol a gofalus er mwyn peidio â hyrwyddo stereoteipiau, yn enwedig ynghylch tlodi, neu roi gormod o bwyslais ar ddulliau elusennol, a all, yn anfwriadol, danseilio dinasyddiaeth fyd-eang ac atgyfnerthu rhagfarnau. I gael rhagor o arweiniad ar ddewis adnoddau, gweler yr adnodd gan RISC, *What makes a good global citizenship resource?*[56]

- Mae gan Oxfam amrywiaeth eang o ganllawiau ac adnoddau TAG rhad ac am ddim ar-lein, sy'n cefnogi dull Dysgu-Meddwl-Gweithredu o ymdrin â materion byd-eang, gan gynnwys y rhai y mae'r Nodau'n eu cwmpasu. Er enghraifft, mae'r canllaw *Teaching Controversial Issues* yn darparu strategaethau, canllawiau a gweithgareddau ar gyfer ymdrin â themâu dadleuol y Nodau yn yr ystafell ddosbarth. Mae enghreifftiau o adnoddau addysgu defnyddiol yn cynnwys: *Climate Challenge* (Nodau 7, 12 ac 13), *Global Food Challenge* (Nodau 1 a 2) ac *Everyone Counts* (Nod 10): www.oxfam.org.uk/education
- Mae'r safleoedd canlynol yn storfeydd chwiliadwy o adnoddau sy'n cwmpasu themâu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy:
  - Global Dimension: globaldimension.org.uk
  - Hwb: www.hwb.gov.wales/repository
  - Signposts for Global Citizenship: www.signpostsglobalcitizenship.org
  - Sustainable Development Goals Explorer: developmenteducation.ie/resources/sdgs/
- Datblygiad personol a hyfforddiant wyneb yn wyneb – mae Canolfannau Addysg Datblygu lleol a sefydliadau eraill, tebyg i Oxfam, yn cynnig cyrsiau sy'n cefnogi athrawon i ddod â themâu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy i mewn i'r ystafell ddosbarth trwy TAG. Dyma enghreifftiau:
  - Oxfam (yng Nghymru a Lloegr): www.oxfam.org.uk/education/get-involved/inset-workshops-for-schools
  - Yn Lloegr: www.codec.org.uk/about-the-network
  - Yn yr Alban: www.ideas-forum.org.uk/about-us/decs
  - Yng Nghymru: www.wcia.org.uk/global-learning
  - Yng Ngogledd Iwerddon: www.globallearningni.com
- Mae'r rhaglen Cysylltu Ystafelloedd Dosbarth trwy Ddysgu Byd-eang (CCGL) yn cefnogi ysgolion o amgylch y byd i ddysgu am faterion byd-eang a chydweithredu arnynt, a hynny trwy gysylltu ysgolion, cyfleoedd hyfforddi athrawon, adnoddau ystafelloedd dosbarth, cyllid ac achrediad. Mae'r rhaglen yn bartneriaeth rhwng y British Council a'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol. Cewch wybod rhagor am Gysylltu Ystafelloedd Dosbarth trwy Ddysgu Byd-eang (CCGL) a'r modd y gallwch gymryd rhan ar: www.britishcouncil.org/connectingclassrooms
- Mae gwefan The World's Largest Lesson yn darparu cyfoeth o wybodaeth gefndir am bob un o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer addysgu, syniadau am weithgareddau yn yr ystafell ddosbarth, a dolenni i gynlluniau gwersi, clipiau ffilmiau a phecynnau addysgu: http://worldslargestlesson.globalgoals.org

## Gwefannau defnyddiol eraill

- 80:20 Educating and Acting for a Better World: www.8020.ie
- Y Ganolfan Addysg Fyd-eang: www.centreforglobaleducation.com
- Ysgolion Eco:
  - www.eco-schools.org.uk (Lloegr);
  - www.keepscotlandbeautiful.org/sustainable-development-education/eco-schools (Yr Alban);
  - https://www.keepwalestidy.cymru/cy (Cymru);
  - www.eco-schoolsni.org (Gogledd Iwerddon)
- Ysgolion Masnach Deg: schools.fairtrade.org.uk
- Adnoddau'r Rhaglen Global Schools: www.globalschoolsprogram.org
- Gwobr Ysgolion Rhyngwladol: schoolsonline.britishcouncil.org/about-programmes/international-school-award
- Practical Action: practicalaction.org/schools
- Scotdec: www.scotdec.org.uk/resources
- SDG Academy: sdgacademy.org
- Cylchgrawn Dinasyddiaeth fyd-eang Stride ar gyfer Ysgolion: www.stridemagazine.org.uk
- Cynaliadwyedd ac Addysg Amgylcheddol (SEEd): se-ed.co.uk/edu
- Mudiad TeachSDGs: www.teachsdgs.org
- Teacher Education for Equity and Sustainability Network (TEESNet): teesnet.liverpoolworldcentre.org
- Gwobr Ysgolion Cynaliadwy y TES: www.wwf.org.uk/get-involved/schools/tes-sustainable-schools-award
- Cymdeithas Genedlaethol y Deyrnas Unedig ar gyfer Addysg Amgylcheddol: naee.org.uk
- Prosiect y Cenhedloedd Unedig ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy: www.unsdgproject.com
- Gwobr UNICEF ar gyfer Ysgolion sy'n Parchu Hawliau: www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools
- Llysgenhadon Gwyrdd y Gronfa Fyd-eang ar gyfer Natur (WWF): www.wwf.org.uk/get-involved/schools/green-ambassadors

## Rhagor o wybodaeth a ffynonellau data

- Atlas of Sustainable Development Goals: datatopics.worldbank.org/sdgatlas
- Bridge 47 – Rhwydwaith Fyd-eang ar gyfer Nod Datblygu Cynaliadwy 4.7: www.bridge47.org
- Gapminder: www.gapminder.org
- Nodau Byd-eang: www.globalgoals.org
- Sefydliad Joseph Rowntree: www.jrf.org.uk
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: www.ons.gov.uk
- Traciwr Nodau Datblygu Cynaliadwy Our World in Data: sdg-tracker.org
- Rhwydwaith Nodau Datblygu Cynaliadwy yr Alban: www.globalgoals.scot
- *The World We'll Leave Behind: Grasping the Sustainability Challenge*. Llawlyfr hygyrch sy'n ymchwilio i faterion, cysyniadau a strategaethau allweddol ar gyfer dysgu, siarad a gweithredu dros gynaliadwyedd. Gan B. Scott a P. Vare. (2018). Abingdon: Routledge.
- UK Stakeholders for Sustainable Development (UKSSD): www.ukssd.co.uk
- Data'r Cenhedloedd Unedig: data.un.org
- Llwyfan Gwybodaeth y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Nodau Datblygu Cynaliadwy: sustainabledevelopment.un.org
- Fforwm y Cenhedloedd Unedig ar Ddata'r Byd: undataforum.org
- Nodau Datblygu Cynaliadwy UNESCO – adnoddau ar gyfer addysgwyr: en.unesco.org/themes/education/sdgs/material
- Data Agored Banc y Byd: data.worldbank.org

## Cydnabyddiaethau

Awdur arweiniol: Harriet Marshall

Gyda diolch arbennig i'r sefydliadau a'r unigolion canlynol am eu cyfraniadau: Gemma Anidi, Phil Bamber, Douglas Bourn, y Ganolfan Addysg Fyd-eang, Connecting Classrooms through Global Learning (CCGL), Consortium for Development Education Centres (CODEC), Harm-Jan Fricke, Alison Hooper, Learning for Sustainability Scotland, Elena Lengthorn, Practical Action, Canolfannau Addysg Datblygu yr Alban, Polly Seton (Cyngor Sir Caerfyrddin) a Jen Simpson.

Hoffem hefyd ddiolch i'r ysgolion, y sefydliadau a'r unigolion hynny (a enwir yn gynharach yn y canllaw) a ddarparodd gynnwys ac ysbrydoliaeth ar gyfer y syniadau am astudiaethau achos a gweithgareddau.

Mae Oxfam yn ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am y testun terfynol.

## Cyfeiriadau


[1] www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights

[2] DFID. (2016). *Putting Young People at the heart of Development:The Department for International Development's Youth Agenda*. Llundain: DFID. www.gov.uk/government/publications/dfids-youth-agenda-putting-young-people-at-the-heart-of-development

[3] www.oecd.org/pisa/pisa-2018-global-competence.htm

[4] www.oxfam.org.uk/education/resources/teaching-controversial-issues

[5] www.sapere.org.uk/about-us.aspx

[6] www.oxfam.org.uk/education/resources/education-for-global-citizenship-a-guide-for-schools

[7] Defnyddir Ysgol Cyfranogiad Roger Hart yn aml fel model ar gyfer cyfranogiad pobl ifanc ar lefelau gwahanol, o weithgareddau symbolaidd/anghyfranogol i ddulliau a ysgogir mwy gan blant: www.unicef-irc.org/publications/pdf/ childrens_participation.pdf

[8] D. Bourn, F. Hunt, N. Blum ac H. Lawson. (2016). Primary *Education for Global Learning and Sustainability*. Caergrawnt: Cambridge Primary Review Trust. cprtrust.org.uk/wp-content/uploads/2016/02/Bourn-report-160217-final.pdf

[9] WWF-UK (2010) Common Cause: *The Case for Working with our Cultural Values*. https://assets.wwf.org.uk/downloads/common_cause_report.pdf

[10] www.un.org/sustainabledevelopment/progress-report/

[11] H. Rosling, O. Rosling ac A. Rosling Rönnlund. (2018). Factfulness: *Ten Reasons We're Wrong About the World – And Why Things Are Better Than You Think*. Llundain: Is-adran Gyffredinol Hodder & Stoughton.

[12] Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. (2017). *2017 UK Provisional Greenhouse Gas Emissions*. Llundain: Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. www.gov.uk/government/statistics/provisional-uk- greenhouse-gas-emissions-national-statistics-2017

[13] www.gapminder.org

[14] www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools

[15] www.survivorsfilm.com

[16] walktheglobalwalk.eu/en

[17] sendmyfriend.org

[18] www.empathylab.uk

[19] toolkit.risc.org.uk

[20] www.brookings.edu/wp-content/uploads/2017/04/global_20170411_measuring-global-citizenship.pdf

[21] www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights

[22] unfccc.int/process-and-meetings/the-paris-agreement/the-paris-agreement

[23] Caiff pob nod ei fynegi mewn brawddeg ac mae ganddo hefyd enw byr, a ddefnyddir yn aml er cyfleuster. Yn y canllaw hwn, rydym fel arfer yn defnyddio'r enwau byr.

[24] www.unwomen.org/en/digital-library/multimedia/2018/7/infographic-why-gender-equality-matters-to-achieving-all-17-sdgs

[25] WCED. (1987). *Report of the World Commission on Environment and Development: Our Common Future*. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen. www.un-documents.net/our-common-future.pdf

[26] www.sustainable-schools-alliance.org.uk/sustainable-schools-framework

[27] www.practicalaction.org/global-goals

[28] UKSSD. (2018). *Measuring up: How the UK is performing on the UN Sustainable Development Goals*. Llundain: UKSSD. www.ukssd.co.uk/measuringup

[29] www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/sustainabledevelopmentgoalstakingstockprogressandpossibilities/november2018

[30] www.gov.uk/government/topical-events/uk-voluntary-national-review-of-progress-towards-the-sustainable-development-goals/about

[31] www.happyplanetindex.org/

[32] www.policy-practice.oxfam.org.uk/publications/oxfam-humankind-index-the-new-measure-of-scotlands-prosperity-second-results-293743

[33] www.un.org/sustainabledevelopment/blog/2018/07/un-forum-spotlights-cities-where-struggle-for-sustainability-will-be-won-or-lost-2

[34] www.naee.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/NAEE_EE_SDG_Publication.pdf

[35] www.una.org.uk/get-involved/learn-and-teach/model-un-portal

[36] www.8020.ie/tag/minecraft/

[37] stemresources.raeng.org.uk/engineering-a-better-world/

[38] www.signpostsglobalcitizenship.org/images/downloads/GC-through-fiction.pdf

[39] www.oxfam.org.uk/education/resources/english-and-global-citizenship

[40] www.radiaid.com

[41] www.oxfam.org.uk/education/resources/global-citizenship-in-the-classroom-a-guide-for-teachers

[42] www.oxfam.org.uk/education/resources/raising-our-voices

[43] www.landfillharmonicmovie.com

[44] www.west-eastern-divan.org

[45] www.oxfam.org.uk/education/resources/childrens-rights

[46] www.practicalaction.org/ditch-the-dirt

[47] www.practicalaction.org/wind-power-challenge-stem

[48] www.foundationyears.org.uk/2017/09/early-childhood-education-for-sustainability

[49] UNESCO. (2018). *Preparing Teachers for Global Citizenship Education: A Template*. Paris/Bangkok: Cyhoeddiadau UNESCO. https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000265452

[50] www.sapere.org.uk

[51] M. Roberts. (2003). *Learning Through Enquiry*. Sheffield: Geographical Association.

[52] http://learningforsustainability.net/systems-thinking/

[53] http://www.gaiaeducation.org/project-based-learning/

[54] www.mantleoftheexpert.com

[55] www.osdemethodology.org.uk

[56] risc.org.uk/images/education/resources/resource-what-makes-a-good-global-citizenship-resource.pdf

**Cydnabyddiaethau'r ffotograffau:**
Clawr: Nigel Willmott/Oxfam
Tudalen 4: Nigel Willmott/Oxfam
Tudalen 6: Tommy Trenchard/Oxfam
Tudalen 7: Liz Newbon
Tudalen 8: Tim Fransham/Oxfam
Tudalen 10: John McLaverty/Oxfam
Tudalen 13: Jonathan Dunn
Tudalen 15: Nigel Willmott/Oxfam
Tudalen 16: Alixandra Buck/Oxfam
Tudalen 17: Aurelie Marrier d'Unienville/Oxfam Tudalen 19: Kathleen Guthrie/Global Learning Hull
Tudalen 20: Sharon Flint
Tudalen 21: Abbie Trayler-Smith/Oxfam Tudalen 22: Sam Baggette/Oxfam
Tudalen 23: Nana Kofi Acquah/Oxfam
Tudalen 25: Nguyen Thi Hoang Yen/Oxfam Tudalen 26: Tegid Cartwright/Oxfam
Tudalen 27: GMB Akash/Oxfam
Tudalen 28: David Azia/Oxfam

© Oxfam GB 2019. Cedwir pob hawl.
Mae hawlfraint ar y llyfryn hwn, ond gellir ei atgynhyrchu ar unrhyw ffurf, at ddibenion addysgu, heb dalu ffi. Ar gyfer hawlfraint o dan unrhyw amgylchiadau eraill, ar gyfer ailddefnyddio mewn cyhoeddiadau eraill, neu ar gyfer cyfieithu neu addasu, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan: Oxfam GB, Oxfam House, John Smith Drive, Rhydychen OX4 2JY.
E-bost: education@oxfam.org.uk.
Argraffwyd ar bapur sydd wedi cael ei ailgylchu 100%.

oxfam.org.uk/education

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (202918), ac yn yr Alban (SC039042). Mae Oxfam GB yn aelod o Oxfam International.

WE WON'T LIVE WITH POVERTY